



BECA JONES



TIM Y FLWYDDYN?



BECA HAF

ECO'r Wyddfa

Rhif: 405
Rhagfyr 2012
Pris: 50c

LLIFOGYDD LLANBERIS

Yn dilyn diwrnod Hydrefol tyner ddydd Mercher, daeth rhyferthwy'r gaeaf ar y dydd Iau; a thrigolion Llanberis a ddioddefodd waethaf er i holl bentrefi'r fro gael profiad o nerth a thymher natur ar ei waethaf.

Mae'r llun ar y dudalen hon yn cyfleu llawer mwy na geiriau. Does ond gobeithio na fu gormod o ddifrod i eiddo a busnesau a hynny mor agos i gyfnod y Nadolig.

Yn eironig iawn, fel roedd y difrod yn digwydd yn Llanberis, daeth neges i'w chynnwys yn yr "Eco" gan Gyngor Gwynedd yn rhoi gwybodaeth am strategaeth i reoli peryglon llifogydd! Maent wedi eu cynnwys ar y dudalen hon, ond yn achos Llanberis a phentrefi eraill y fro, mae'r geiriau "braidd yn hwyr" yn swnio'n addas!

Eich Barn am Reoli Llifogydd

Mae Cyngor Gwynedd wedi llunio cyfres o strategaethau drafft yn rhannu manylion am sut mae'r Cyngor yn bwriadu rheoli peryglon llifogydd yng Ngwynedd.

Maent yn cynnwys:

Strategaeth Leol i Reoli Perygl
Llifogydd

Asesiad Amgylcheddol
Strategol

Asesiad Rheoliadau
Cynefinoedd

Mae copi o'r strategaethau ar gael yn swyddfeydd y Cyngor yng Nghaernarfon, Bangor, Pwllheli a Dolgellau, yn holl lyfrgelloedd y Cyngor ac ar wefan y Cyngor www.gwynedd.gov.uk

Mae'r Cyngor yn awyddus i glywed eich barn ar y strategaeth ddrafft yma. Gallwch anfon eich sylwadau ysgrifenedig at: Uned Rheoli Perygl Llifogydd a'r Arfordir, Cae Penarlâg, Dolgellau, Gwynedd, LL40 2YB neu drwy e-bost FCRMU@gwynedd.gov.uk

Bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben ar 21 Rhagfyr 2012.

APEL

Parhau mae'r apel am ohebydd i Benisarwaun a hynny i gychwyn ar ôl rhifyn y Nadolig – Rhagfyr 9fed.

Erfynnir am wirfoddolwr i gymryd yr awenau o dderbyn newyddion y pentref a rhoi ychydig

o oriau'n fisol i adrodd am ddigwyddiadau'r pentref i ddarllenwyr ffyddlon yr Eco.

Cysyllter ar (872407) neu gyda Chadeirydd y Pwyllgor Gwaith, Geraint Elis, Bethel. Diolch.

ECO'r Wyddfa

RHIF 405 RHAGFYR 2012

Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Straeon ac erthyglau
ar e-bost i
Dafydd Whiteside Thomas
Bron y Nant, Llanrug
01286 673515
ecorwyddfa@gmail.com

CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWAITH

Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR

Gwynnaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (238495)
glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION

Eifion Roberts, Swŷn-y-Gwynt,
Llanberis (870740)
eifionroberts132@btinternet.com

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST

Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD BWNDELU

Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Swŷn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn
Moelyn (675384)

NANT PERIS: Kate Pritchard (872331)
neu econantperis@hotmail.com

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

gosodwyd gan

grid 76
dylunio graffeg
07766956673

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2012

Rhifyn

Nadolig/Ionawr

Copi i law

Rhagfyr 9

Plygu

Rhagfyr 20

Ble

Ysgol Brynrefail

Chwefror

Ionawr 20

Ionawr 30

Waunfawr

Mawrth

Chwefror 17

Chwefror 28

Llanrug

LLYTHYRAU

Annwyl Olygydd,

Annwyl Olygydd Mewn blwyddyn lle mae cyfryngau Prydeinig wedi gwneud eu gorau glas i glodfori Prydeindod a gwadu fod unrhyw genedligrwydd arall yn bodoli o fewn Prydain, daw cyfle i ni sy'n credu fod Cymru'n genedl goffau ein hawyr cenedlaethol. Ar Ragfyr 11, 1282, lladdwyd Llywelyn ap Gruffydd, Tywysog Cymru, ynghyd â miloedd o'i filwyr yng nghyffiniau Cilmeri wrth ymyl Llanfair ym Muallt yn ymladd i gadw Cymru yn rhydd o ormes Lloegr. Claddwyd corff Llywelyn yn Abaty Cwm hir. Aethpwyd â'i ben i Lundain fel troffi. Credir i gyrff ei filwyr orwedd mewn bedd torfol o dan gwrs golff Llanfair ym Muallt. Fel sy'n digwydd bob blwyddyn ers 60au'r ganrif ddiwethaf coffeir y trychineb hwn yn hanes Cymru trwy gynnal seremoni yng Nghilmeri ar y dydd Sadwrn agosaf i Ragfyr 11eg sef Rhagfyr 8fed eleni. Cynhelir hefyd ar ddydd Sul, Rhagfyr 9fed seremoni coffau yn Llys Rhosyr ar gyrion Niwbwrch ar Ynys Môn. Yn Llys Rhosyr mae olion yr unig un o lysoedd Llywelyn, y cafwyd hyd iddo, i'w gweld. Dylai pawb sy'n dymuno cymryd rhan ymgynnull wrth ymyl Institiwt Niwbwrch am 1.30 o'r gloch. Cyn hynny yn y bore caiff torchau eu gosod ar gofgolofn Llywelyn y tu allan i swyddfeydd Cyngor Gwynedd yng Nghaernarfon am 11.30 o'r gloch.

Gobeithir gweld yn y seremonïau hyn pawb sy'n meddwl ei bod yn bwysig coffau'r Cymry a gollodd eu bywydau wrth ymladd dros ryddid i Gymru.

Yr eiddoch yn wlatgar Chris Schoen
Penygroes, Gwynedd

RHODDION

£1,000: - Myra ac Euron i gofio'r Prifardd Selwyn Griffith.

£30: Rhiaian Griffiths, Llundain i gofio am ei mam Dilys Fouracres, gynt o Benisarwaun

£15: Di-enw Tanycoed, Llanrug.

£20 Dylan a Sioned Lewis a'r teulu, Rhydfadog, Deiniolen; Gertie ac Elen, 4 Hafan Elan, Llanrug; Trefor a Heulwen Edwards, Tŷ Eldon, Llanberis; Louie Pritchard, Maes Padarn, Llanberis; Er cof am Gordon Richard Owen, 46 Maes Padarn, Llanberis; Dic Parry, Twelfa, Penisarwaun.

£10: Di-enw

£5: Brenda Richardson, Bryn Hyfryd, Penisarwaun.

Chwarae eich rhan mewn hanes

Mae Gwasanaeth Archifau Cyngor Gwynedd yn chwilio am bobl sydd â diddordeb mewn hanes i helpu i greu arddangosfa o'r Rhyfel Byd Cyntaf.

Mae angen gwirfoddolwyr i helpu i chwilio trwy ddogfennau, lluniau ac erthyglau papur newydd diddorol sy'n gysylltiedig â'r Rhyfel Mawr.

Bydd yr arddangosfa yn un o gyfres o ddigwyddiadau ar-lein, fydd ar gael rhwng 2014-18, i nodi canmlwyddiant ers dechrau'r rhyfel. Y bwriad yw dod a hanes y rhyfel, a'i effaith

ar gymunedau lleol, yn fyw. Dywedodd y Cynghorydd John Wynn Jones, aelod o Gabinet Cyngor Gwynedd gyda chyfrifoldeb dros y celfyddydau: "Mae effeithiau'r Rhyfel Mawr dal i'w gweld heddiw yma yng Ngwynedd, bu i gannoedd o ddynion o'r sir fynd i ymladd. Dyma un o'r digwyddiadau bydol cyntaf i gael eu recordio mewn ffotograffiaeth ac mewn print. "Wrth i gan mlwyddiant dechrau'r rhyfel agosau rydw i'n rhagweld y bydd diddordeb yn y cyfnod hwn o hanes yn tyfu, felly rydw i'n hynod falch

for y Gwasanaeth Archifau yn rhoi'r arddangosfa yma at ei gilydd.

"Dyma gyfle gwych i bobl leol chwarae eu rhan mewn sicrhau fod hanes o fewn cyrraedd pawb a byddwn yn galw ar unrhyw un sydd â diddordeb yn y maes, ac sydd efo ychydig oriau i'w sbario, i gysylltu efo'r gwasanaeth."

Am fwy o wybodaeth am y cyfle hwn cysylltwch â Archifdy Caernarfon (01286) 679 095 archifau.caernarfon@gwynedd.gov.uk

Rhifyn yr Hysbysebion Nadolig.

Cofiwch fod rhifyn arall o'r "Eco" allan cyn y Nadolig. Yn hwnnw, fel yn y rhifyn hwn, mae holl fusnesau'r fro yn cael cyfle i gyfleu dymuniadau'r tymor i'w holl gwsmeriaid. Mae ein diolch ninnau, weithwyr yr "Eco" iddynt hwythau am gefnogi'r papur trwy gydol y flwyddyn. Heb yr hwb ariannol hwn, byddai'n gryn dipyn anoddach cael yr "Eco" i ymddangos yn fisol.

Aelod o'r teulu neu ffrind wedi gadael yr ardal?

Beth am i ni anfon copi o'r Eco iddynt bob mis

Gallwn anfon copiau drwy'r post neu dros y we.

Cost anfon drwy'r post am flwyddyn - o fewn Prydain: £13.50

- gwledydd Ewrop £33.50 - gwledydd eraill £42.50

Cost anfon dros y we am flwyddyn - £5.50

Cysylltwch ag Olwen Hughes ar 01286-674839 neu olwenwaen@yahoo.co.uk



Llais i'r Iaith

Diolch i ymgyrchu a phleidlais a chefnogaeth ariannol Cymry Cymraeg yn bennaf, mae gan Gymru Senedd, Deddf Iaith, S4C a Choleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae llawer wedi'i wneud mewn 50 mlynedd. Ond mae llawer mwy angen ei wneud dros y Gymraeg, a llawer mwy y gallen ni ei wneud gyda'n gilydd.

Mae Senedd yng Nghymru heddiw yn rhoi cyfle i ni wneud yn siŵr fod ein hiaith ni yn ganolog i bopeth sy'n cael ei basio o ran deddf a rheolau eraill ym mhob rhan o'n bywydau. Cynllunio ac adeiladu tai, gwasanaeth iechyd, ysgolion a cholegau, amgylchedd cynaliadwy, gofal a lles pobl o bob oed... mae'r rhain i gyd yn feysydd sy'n gwneud gwahaniaeth i'r Gymraeg. Dyma lle mae'r iaith yn mynd i fyw... neu farw.

Y trueni mawr yw bod cyfle yn cael ei golli bob dydd i gryfhau'r Gymraeg ym mhob maes gan nad oes yna neb yn gweithio i lobio dros yr iaith yn ein Senedd ym Mae Caerdydd. Mae gan bob mudiad arall dan haul sawl person yn lobio drostyn nhw, ond does neb yn gwneud hynny dros y Gymraeg.

Dyma'r ffordd i ennill brwydrau a gwneud gwahaniaeth, bellach. Roedd ymgyrchu a phrotestio yn gweithio cyn i ni gael Senedd. Mi ddylai fod yn bosibl cyflawni llawer rhagor erbyn hyn. Ond dydyn ni ddim yn defnyddio'r cyfle sydd ar gael.

Pwrpas sefydlu Dyfodol i'r Iaith yw newid hynny, a sicrhau bod pobl yn gweithio dros y Gymraeg yn y man mwyaf effeithiol posib – yng nghanol y gwleidyddion a'r gweision sifil yng Nghaerdydd. Mae angen cyflogi pedwar person proffesiynol i lobio dros y Gymraeg ar draws ystod eang o feysydd.

Er mwyn gallu talu cyflog y pedwar, mae angen swm mawr o arian. £200,000 bob blwyddyn. Swm anferth o edrych arno, ond swm y gallwn ni ei gasglu pe bai pawb yn helpu'n ymarferol i sicrhau dyfodol i'n hiaith. Mae miloedd o bunnoedd y flwyddyn wedi'u haddo'n barod gan aelodau Dyfodol i'r Iaith. Mae Dyfodol yn agored i unrhyw un sy'n caru'r iaith Gymraeg ac nid yw ynghlwm wrth unrhyw blaid wleidyddol nac yn derbyn unrhyw nawdd cyhoeddus.

£10 y mis yn unig yw tâl aelodaeth Dyfodol. A yw £10 y mis yn ormod i'w dalu er mwyn gwneud y Gymraeg yn iaith fyw ym mhob maes? A ydych chi am estyn llaw? Ydych chi am fod yn rhan o'r cyfle gorau erioed i warchod a datblygu'r Gymraeg?

Mae rhai wedi protestio, mae rhai wedi bod mewn carchar, mae rhai wedi rhoi llawer mwy na £10 y mis dros y blynyddoedd. Mae hwn yn gyfle arall i bob un ohonom ni. Nid mynd i lys barn, nid mynd i garchar, ond mynd i'n pocedi.

Cefnogwch y Gymraeg - er mwyn ei dyfodol. Ymunwch â Dyfodol. Rhowch Lais i'r Iaith.

Ewch i'r wefan: www.dyfodol.net i gael ffurflen ymaelodi. Mae croeso i gyfraniadau ariannol, yn ogystal.

Yn ddiffuant

Bethan Jones Parry, Llywydd; Heini Gruffudd, Cadeirydd; Angharad Mair, Is-Gadeirydd; Richard Wyn Jones, aelod o'r Bwrdd; Eifion Lloyd Jones, aelod o'r Bwrdd.

Plaid Cymru

Cangen Caernarfon

TYD AM DRO DOLIG HIR CO!

Dydd Iau, Rhagfyr 27ain, am 11.00 wrth Galeri (ochr y Doc) a cherdded o amgylch cyrion Caernarfon efo Emrys Bydd y daith yn cymryd tua 2 awr a hanner ac yn golygu dringo i Ben Twtil, felly sgidia call a dim hi-hils! Byddwn yn ymweld â Pont Cadnant, Cae Top, Tyddyn Pandy, Llanbeblig, Segontium a llwybr sgotwrs wrth y Seiont.

Croeso cynnes i bawb.

Emrys

07813142751

emojos@btinternet.com www.drodre.com

Cronfa Goffa R.H. Owen

Ar Fedi 13eg, cynhaliwyd cyfarfod o Ymddiriedolwyr y Gronfa uchod. Llywyddwyd y cyfarfod gan Mr Ralph Jones, sef yr Is-Gadeirydd. Prif amcan y cyfarfod hwn oedd ymdrin â cheisiadau am grantiau oddi wrth y bobl ifainc.

Daeth naw cais i law, yn cynrychioli plwyfi Llanberis, Llanrug a Llanddeiniolen. Llwyddwyd i roi grant i bob un o'r ymgeiswyr, a phleser gan yr ymddiriedolwyr yw ymdrin â holl geisiadau'r plwyfi ar yr un lefel. Y flwyddyn nesaf hysbysir am geisiadau ym mis Gorffennaf a Medi a bydd y dyddiad cau ar Fedi 30ain. Cofiwch y dyddiadau hyn.



Apêl I Wisgo Siwmpwr Nadolig Er Budd Plant Y Byd

Ar Ragfyr 14eg mae Achub y Plant yn galw ar bawb i gefnogi 'Diwrnod Siwmpwr Nadolig' yr elusen er mwyn codi arian i helpu plant anghenus ar draws y byd. Bydd plant mewn ysgolion, gweithwyr mewn swyddfeydd, cyflwynwyr teledu - PAWB! - gobeithio yn gwisgo siwmpwr liwgar ar y diwrnod yma ac yn cyfrannu £1 neu fwy at achos da.

Bob blwyddyn mae 7.6 miliwn o blant o dan 5 oed yn marw heb fod angen. Maen nhw yn marw o achosion sy'n gallu cael eu trin yn rhwydd ac yn rhad fel dolur rhydd, malaria, niwmonia a diffyg maeth. Mae Achub y Plant yn ceisio gwneud yn siŵr fod plant yn cael bwyd maethlon a dŵr glân ac yn adeiladu clinigau i helpu teuluoedd.

- mae £1 yn gallu prynu 5 pecyn o bast cnau i fwydo plentyn bach am y dydd

-mae £3 yn gallu prynu rhwyd mosgito i stopio plentyn rhag dal malaria

- mae £100 yn gallu prynu 50 o flancedi cynnes i stopio babanod rhag dal niwmonia.

- Mae £500 yn gallu hyfforddi gweithwyr iechyd i helpu teuluoedd yn y clinigau.

Mae rhai plant yma yng Nghymru hefyd yn wynebu'r gaeaf heb gôt aeaf gynnes neu bâr o esgidiau addas. Mae nifer hefyd yn byw mewn tai sy'n oer ac yn llaith oherwydd na all eu rheini fforddio i dalu'r biliau tanwydd.

Mae'r gyflwynwraig Heledd Cynwal yn Llysgennad i Achub y Plant a bydd hi yn gwisgo siwmpwr Nadolig ar 14 Rhagfyr.

"Dw i'n credu ei fod yn syniad gwych ac yn lot o sbort. Fel mam i dri o blant bach o dan 7 oed mae'n anodd derbyn fod cymaint o blant yn marw bob blwyddyn heb fod angen. Os yw un o fy mhlant i yn dioddef o fola tost, wy'n mynd at y fferyllydd neu at fy meddyg teulu i gael moddion. Mae'n anodd credu fod plentyn yn rhai o'r gwledydd tlotaf yn gallu marw o ddolur rhydd. Ymunwch gyda fi felly drwy wisgo siwmpwr i godi arian tuag at Achub Y Plant."

Bydd sêr eraill o Gymru yn ymuno gyda Heledd hefyd i gefnogi'r apêl sef y tenor byd enwog Gwyn Hughes Jones a'i wraig, y gantores Stacey Wheeler a'r cyn-gyflwynwraig tywydd ar S4C, Jenny Ogwen. Mae syniadau am sut y gallwch chi addurno eich siwmpwr i chodi arian ar wefan Achub y Plant. Ewch draw i www.savethechildren.org.uk/christmas-jumper-day. Gallwch hefyd ffonio 0207012 6400 neu e-bostio christmasjumper@savethechildren.org.uk am becyn gwybodaeth.

Mae Achub y Plant hefyd mewn cydweithrediad gyda Merched y Wawr yn casglu addurniadau Nadolig ar gyfer eu gwerthu ar faes Eisteddfod Genedlaethol Dinbych a'r Cyffiniau 2013. Felly os oes gennych addurniadau chwaethus ac mewn cyflwr da nad ydych am eu cadw yn ôl yn yr atig ar ôl y Nadolig byddai Achub y Plant yn falch o'u derbyn. Cysylltwch gydag Eurgain Haf ar 0790 993 7218 am fwy o fanylion.

Bydd Gwyn Hughes Jones a Stacey Wheeler hefyd yn cynnal cyngerdd mawreddog ar y 10fed Ionawr 2013 yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, Caerdydd er budd Achub y Plant. Am docynnau ffoniwch 029 2039 1391 neu e-bostiwch boxoffice@rwcmd.ac.uk

neu gallwch eu harchebu ar-lein ar www.rwcmd.ac.uk/whatson <<http://www.rwcmd.ac.uk/whatson>>.

Cofiwch hefyd fod cardiau Nadolig dwyieithog Achub y Plant ar gael. Cysylltwch gydag Eurgain Haf o'r elusen os hoffech brynu rhai ar 0790 993 7218 neu e.haf@savethechildren.org.uk <<mailto:e.haf@savethechildren.org.uk>>.



Clwb Bro Bethel Yn absenoldeb anorfod y Llywydd croesawyd nifer dda o'r aelodau gan yr Is-Lywydd, Geraint Elis. Da oedd datgan fod y Clwb wedi derbyn rhodd o £150 gan Gyngor Llanddeiniolen a £10 gan y Cynghorydd Siôn Jones. Anfonwyd llythyr gan yr Ysgrifennydd yn diolch am y ddwy rodd. Llongyfarchwyd Rita Williams ar ddod yn Nain i Lydia Alys, merch fach Menna a Dave a dymunwyd yn dda i'r teulu bach. Gofynnwyd i bawb sydd am ddod i'r Cinio Nadolig a heb roi'r ffurflen bwyd i mewn i gysylltu ar unwaith gyda Ann Ellis Williams neu Ivy Wright.

Melanie Philips, Swyddog Cyfeiriadu ac Estyn Allan GISDA oedd yn annerch yr aelodau. Cafwyd sgwrs ddifyr iawn ganddi yn olrhain hanes cychwyn GISDA ym 1985, gyda'r bwriad i gefnogi pobl ifanc i fyw yn annibynnol yn eu cymunedau. Erbyn hyn mae GISDA yn gyfrifol am ddwy Hostel, sef Hafan yng Nghaernarfon a Llys Meddyg ym Mlaenau Ffestiniog. Roedd Harri Morris wedi dod hefyd a bu yntau yn siarad yn ddifyr am ei brofiadau gyda GISDA. Diolchwyd yn gynnes iawn i'r ddau am godi ein hymwybyddiaeth o'r gwaith mae GISDA yn ei gyflawni gan

Myra Griffiths.

Llongyfarchiadau mawr i ti Gethin ar dderbyn ysgoloriaeth Rhagoriaeth Cerddoriaeth yn y Brifysgol ym Mangor. Oddi wrth Nain.

Cymdeithas Lenyddol Estynnodd Llywydd y Gymdeithas, Dr. J. Elwyn Hughes, groeso cynnes i bawb a braf oedd cael hysbysu pawb fod y Gymdeithas wedi derbyn rhodd ariannol yn ddiweddar o £150 gan Gyngor Llanddeiniolen. Michael a Marian Lambert Jones oedd wedi dod draw, a chroesawyd hwy gan Lywydd y noson, Jenkin Griffiths. Cawsom hanes, mewn lluniau, o'u taith i'r Antartica dros y Nadolig ychydig flynyddoedd yn ôl. Roedd y golygfeydd yn odidog a chafwyd blas ar fywyd yn yr Arianin ac Ynysoedd y Falklands wrth iddynt deithio tuag at begwn y De. Roedd lluniau o'r pengwins yn anhygoel, a diddorol oedd cael ar ddeall fod yna tua 20 mil ohonynt o gwmpas y lle! Cafwyd gair o ddiolch gan Jenkin Griffiths a chyhoeddodd mai Dathlu'r Nadolig, yng nghwmni'r aelodau, dan ofal Robin Jones, fydd y cyfarfod nesaf a hynny ar Rhagfyr 11 yn Ffestri Cysegr am 7.15.

Ymddiheuriad.

Collwyd y mwyafrif o newyddion Brynrefail yn y broses o osod y rhifyn diwethaf. Ymddiheuriadau i'r gohebydd ac i drigolion y pentref. (Gol.)

Gadael Allan Mae'n debyg i ddarllenwyr yr Eco sylwi fod newyddion y pentref yn rhifyn Tachwedd yn anghyflawn. Oherwydd i'r rhan helaethaf o'r newyddion gael eu gadael allan, yn anorfod mae'n ofynnol cynnwys nifer o adroddiadau o'r mis diwethaf yn y rhifyn hwn.

Dathliad Arbennig

Llongyfarchiadau gwresog i Hugh a Dilys Evans, Min y Don ar ddathlu eu Priodas Aur ar Fedi 27ain. Mae'r ddau yn dymuno diolch yn fawr iawn i'r teulu a chyfeillion lu am eu cyfarchion a'u caredigrwydd ar yr achlysur arbennig hwn.

Cefnogi Cancr Macmillan

Ddydd Gwener, Medi 28ain yng Nghaffi Caban cynhaliwyd Bore Goffi fel rhan o ymgyrch eang y diwrnod hwnnw i godi arian i apêl Cefnogi Cancr Macmillan. Gyda chydweithrediad gweithwyr Caban roedd y trefnu yn llaw Claire Pritchard, un dreuliodd ei phlentyndod yn y pentref ond 'nawr yn byw ym Mhontrug. Ymddangosodd llun o Claire a'i pharatoadau yn rhifyn Tachwedd o'r Eco. Mawr yw ein diolch iddi am ei hymroddiad. Mae Claire yn llawen iawn i gyhoeddi i'r ymdrech wneud elw o £311.30 ac am gyflwyno ei diolch cynnes hithau i'r gymuned am eu cefnogaeth a'u haelioni.

Cofion Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau am wellad buan i Arthur Jones, 5 Trem Eilian sydd wedi derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar a'r un modd i David Mullen, 2 Trem Eilian sydd wedi bod dan archwiliad meddygol yn yr un ysbyty.

Nosweithiau Cwis Caban

Cafwyd noson Cwis lwyddiannus yn Caban nos Iau, Medi 27 ain. Roedd y gweithgaredd wedi ei drefnu gan gogydd poblogaidd Caban, Aled Davies gyda phrydyn blasus yn cael ei weini. Cynhaliwyd noson arall gyffelyb gyda'r cwestiynau ar y thema 'Bwyd a Diod' nos Iau Tachwedd 1af gyda Tapas ar y fwydlen. Unwaith eto roedd hon yn noson lwyddiannus iawn gyda saith o dimau yn cymryd rhan. Bydd y Noson Gwis nesaf nos Iau, Rhagfyr

20fed gyda danteithion Nadolig ar y fwydlen.

Cofiwch hefyd fod Cinio Nadolig Twrci ar fwydlen ddyddiol Caffi Caban o hyn hyd Ragfyr 23ain.

Sefydliad Y Merched

Nos Lun, Hydref 8fed cynhaliwyd Swper y Cynhaeaf dan nawdd Grŵp Eryri o Sefydliad y Merched yng Nghanolfan Gymdeithasol, Llanberis. Roedd arlwy blasus o Lobscows a theisen afal a chafwyd Cwis Cyfeillgar wedi ei drefnu gan Carol Houston.

Cynhaliwyd Cyngor yr Hydref yn Ysgol Brynrefail ddydd Sadwrn, Hydref 13eg. Roedd aelodau'r Sefydliad ym Mrynrefail yn falch o weld Pat Jones, ein llywydd yn arwain y cyfarfod llwyddiannus fel Cadeirydd Sir.

Nos Iau, Hydref 18fed, croesawyd Beryl Williams a Tracey Jones o 'Ambiwlans Sant Ioan'i gyfarfod y mis. Cafwyd sgwrs ac arddangosiad o wahanol fathau o Gymorth Cyntaf y dylid eu hymarfer mewn argyfwng. Yn y cyfarfod hefyd darllenwyd llythyr y mis a thrafod trefniadau ar gyfer gweithgaredd Bowllo Deg, cyrsiau ym Mhlas Tan y Bwlch a chinio'r Ffederasiwn yng Ngwesty Fictoria, Llanberis.

Cynhaliwyd Cyfarfod Blyneddol y gangen leol nos Iau, Tachwedd 15fed. Darllenwyd y cofnodion am y flwyddyn a'r datganiad ariannol. Hefyd cafwyd adroddiad o ddigwyddiadau'r Ffederasiwn gan Pat Jones, cadeirydd y sir. Croesawyd Margaret Lloyd Jones i'r cyfarfod i ddewis swyddogion am y flwyddyn nesaf a bu i'r swyddogion presennol gael eu hail-ethol. Diolchwyd iddynt am eu gwaith dros y flwyddyn aeth heibio.

Gŵr gwadd y noson oedd y Parch Marcus Wyn Robinson gyda'i sgwrs ar flas gwin a sut i adnabod gwahanol winoedd. Difyr iawn oedd gwrando ar ei arbenigedd a'i gyflwyniad hwyliog.

Edrychir ymlaen yn awr at Noson Garolau Grŵp Eryri yn Eglwys Sant Peris, Nant Peris nos Lun, Rhagfyr 3ydd a Chinio Nadolig y gangen ar Ragfyr 13eg yng Nghaffi Caban.

Profedigaeth

Bu farw Mrs Gwyneth Rees Evans yn dawel yn Ysbyty Gwynedd ar Fedi 16eg yn 79 mlwydd oed. Ganwyd

Gwasanaeth Gwres a Plymio

Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser

Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW
Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718

Cofiwch ddefnyddio

SWYDDFA POST BETHEL

(01248) 670261

Cewch groeso cynnes gan,
CLED A SUSAN A'R TEULU

Cofiwch am ein gwasanaeth newid pres tramor, yswiriant, talu biliau, etc., yn ogystal â gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.

A hefyd Paypoint, Loteri a Pheiriant Tynnu Pres (Cashback)

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn a Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb



Gwyneth yn Cae Newydd, Llanrug ac wedyn symudi i Cae'r Frân, Llanberis yn eneth ifanc a mynychu Ysgol Dolbadarn. Bu'n gweithio ym maes arlwyio y rhan helaethaf o'i hoes mewn gwestai yn Llanberis, Ysbyty Bryn Seiont, Hafod Meurig, Brynrefail a chyn ymddeol

gyda Gofal Cartref. Yn 1952, priododd y diweddar Richard Wyn Evans a dod i fyw i Dy'n Buarth Ganwyd iddynt ddwy ferch, Dilys a Mair. Roedd hefyd yn nain gariadus i Rhian a Dylan a hen nain i Mali Efa.

Diolch

Dymuna Mair a Denis Davies

a theulu y ddiweddar Gwyneth Evans, Ty'n Buarth ddiolch o waelod calon am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli mam, mam yng nghyfraith nain a hen nain annwyl iawn. Diolch i'r Parch John Pritchard a'r Parch Reuben Roberts a'r

organyddes, Lowri Roberts Williams am eu gwasanaeth yn Eglwys Santes Helen, Penisarwaun. Diolch hefyd i Dylan a Meinir Griffith am y trefniadau trylwyr. Fe rennir y rhoddion er cof rhwng Cartref Gwynfa, Bontnewydd ac Ymchwil y Galon.

Yr Eglwys Bresbyteraidd

Ymweliad - Brynhawn Sadwrn, Medi 22ain, roedd yn bleser gan y Swyddogion ynghyd â Dafydd a Moira Ellis, Gweledfa gael cwmni cyfeillion o Eglwys Bethel, Melin y Coed, Llanrwst ynghyd â'u Gweinidog y Parch Richard O. Jones, y cynhwyswyd eu llun yn rhifyn Tachwedd. Hwn oedd y trydydd ymweliad gafwyd yn ystod y misoedd diwethaf gan Gymdeithasau Capeli ac fel y ddau ymweliad blaenorol, roedd y tywydd yn hynod o braf i bawb fwynhau ardal Penllyn, datblygiad Adeiladau y Capel, gerddi a chrefftau Gweledfa, ymweld â'r Ystafell Addoli lle cawsant sgwrs am hanes y pentref ac yn benodol safle'r Capel a'r Hen Ysgol Sir. Cafwyd cyfle i gymdeithasu ymhellach ym Mwyty Caban a chyfle i ddiolch i'r Parch Idris Thomas am gael bod yn rhan o'r ymweliadau drefnwyd i fro'r Eco.

Gwefan yr Henaduriaeth - Yn ddiweddar aeth cynrychiolaeth o'r swyddogion i lansiad Gwefan Henaduriaeth Arfon ym Merea Newydd, Bangor wedi ei pharatoi gan gwmni Delwedd. Mae'n wefan gynhwysfawr ac ynddi fanylion am yr Eglwys ym Mrynrefail. Cliciwch ar www.henaduriaetharfon.org

Coffad - Ar derfyn yr oedfa Nos Sul, Medi 23ain cydymdeimlwyd fel Eglwys â theulu y ddiweddar Gwyneth Evans, Ty'n Buarth a fu farw ar Fedi 16eg. Talwyd teyrnged fer gan lywydd y mis, Lowri Roberts Williams i Gwyneth fel un a fu'n hynod ffyddlon i'r Achos ym Mrynrefail am dros gyfnod maith a'r bwlch o'i cholli o'n plith yn yr oedfaon yn amlwg y dyddiau hyn. Bu hefyd yn neilltuol gefnogol i waith ei diweddar briod Richard Wyn Evans fel blaenor yn yr Eglwys am drigain mlynedd yn arbennig felly yn ei swydd fel Ysgrifennydd y Cyhoeddiau.

Y Gymdeithas - Brynhawn Iau, Hydref 18fed i gloi tymor y Gymdeithas, cafwyd tro i Ynys Môn. Cyn cyrraedd Porth Swtan yng ngogledd orllewin yr Ynys oedd yr aelodau yn Llanfwrog ac yno yn y fynwent weld bedd y diweddar Barchedig John Roberts. Croeso cynnes ymhob ystyr oedd yn ein disgwyl ym Mwthyn to gwellt Swtan gan ddwy wraig hawddgar a thanllwyth o dân a chael cyfle i ryfeddu at yr adeilad hynafol, yr holl greiriau o fewn y bwthyn a'r adeiladau allanol. Wedi oedi uwch y bae teithiwyd i ardal Llanfairynghornwy lle yno yn y fynwent mae carreg fedd unigryw yr arlunydd Kyffin Williams. Yna ymlaen i Gemlyn gerllaw lle ar Fedi 15fed eleni dadorchuddiwyd Cofeb ar fur Capel Siloam i'r diweddar Robert Williams (1782-1818), cyfansoddwr y dôn enwog 'Llanfair'. I ddiweddu'r daith mwynhaodd pawb luniaeth yng Nghanolfan Arddio Pentre Berw. Roedd y prynhawn yn glo hyfryd i weithgareddau'r tymor. Mawr yw ein diolch i Dafydd Ellis, Gweledfa am holl drefniadau cyfarfodydd y Gymdeithas.

Oedfa Gymun - Nos Sul, Tachwedd 4ydd, roedd yr oedfa dan arweiniad y Gweinidog, Y Parch Marcus Wyn Robinson. Gan mai hon oedd yr oedfa gyntaf iddo ym Mrynrefail ers ei alw yn

Fugail i'r Eglwys ar Orffennaf 1af, croesawyd ef yn gynnes i'n plith gan lywydd y mis, Gwyn Hefin Jones gan ddymuno yn dda i'r eglwys ar gychwyn pennod arall yn ei hanes. Gweinyddwyd y Sacrament o Swper yr Arglwydd ar derfyn y gwasanaeth.

Gwasanaeth Cysegru - Fore Sul, Tachwedd 1leg daeth aelodau'r Eglwys a chyfeillion ynghyd i wasanaeth cysegru y ddwy gofeb ryfel a gafodd eu harddangos ar furiau mewnol y Capel am nifer helaeth o flynyddoedd ac a ad-leolwyd yn ddiweddar i ardd Caban. Roedd y gwasanaeth dan ofal y Gweinidog y Parch Marcus Wyn Robinson ac roedd yn dda gweld nifer o gyfeillion oedd a chysylltiad teuluol â'r bechgyn a gollwyd yn y ddau Ryfel Byd yn bresennol. Cafwyd gair o atgofion ac adroddiad sensitif am rai o'r ymadawedig gan Jennie Angharad Roberts sydd a'i brawd ymhlith y rhai a gollwyd yn yr Ail Ryfel Byd. Rydym fel Eglwys yn ddiolchgar i'r crefftwyr am y gwaith adnewyddu wnaed ar y meini a'u gosod yn yr ardd ac i'r awdurdodau cysylltiedig am eu cydweithrediad yn y broses o sicrhau safle barhaol dderbyniol yn lleol i'r cofebion hyn.

Apêl Guatemala 2012 - Rhoddwyd sylw arbennig i Apêl yr Eglwys Bresbyteraidd nos Sul, Tachwedd 18fed, drwy gynnal gwasanaeth arbennig wedi ei seilio ar ddeunydd y Pecyn Eglwys a dderbyniwyd

gan y Cyfundeb. Roedd yr oedfa dan ofal Jennie Angharad Roberts, Lowri Prys Williams a Gwyn Hefin Jones. Cafwyd oedfa ddefosiynol ynghyd a chyflwyniad effeithiol drwy gyfrwng 'power point' o anghenion Guatemala a'r prosiectau fydd maes o law yn derbyn ein cefnogaeth ariannol. Gyda rhai ymdrechion ariannol eisoes wedi eu cyflawni gennym, bydd cyfle ni obeithiwn i gyrraedd ein targed fel eglwys gyda chasgliad arbennig yn ein hoedfa Nadolig ar Ragfyr 16eg.

Blychau 'Plentyn Nadolig' - Cymerodd yr aelodau ran eleni eto yn yr ymgyrch hon. Mae ein diolch yn fawr fel arfer i Jennie Angharad Roberts am ei gwaith yn trefnu y cyfan.

Oedfaon Rhagfy:

2 am 10.00	Parch Geraint Hughes, Bethesda
9 am 5.30	Parch Marcus Wyn Robinson (Gweinidog)
16 am 2.00	Gwasanaeth Nadolig dan ofal yr Aelodau gyda lluniaeth i ddilyn ym Mwyty Caban



Cofeb Robert Williams yng Nghemlyn Ynys Môn



Carreg Fedd Kyffin Williams ym Mynwent Llanfairynghornwy Ynys Môn

Digwyddiadau dros yr Ŵyl
Mae mudiadau yng Nghaeathro wedi trefnu'r canlynol i drigolion y fro a'u cyfeillion:

• **Ysgol Gynradd Y Bontnewydd:** 12 Rhagfyr – Noson Carolau'r Cyfnod Sylfaen; 13 Rhagfyr – Noson Carolau Cyfnod Allweddol 2. Cynhelir y ddau am 6:00 y h yng Nghanolfan Cymunedol Y Bontnewydd

• Dydd Llun, 17 Rhagfyr: 5:30 – Parti 'Dolig y Plant iau yng Nghanolfan y Capel.

• Dydd Mercher, 19 Rhagfyr: 7:00 - Canu Carolau o amgylch y goeden Nadolig gyda Seindorf Iau Llanrug, wedyn cawl cartref a chymdeithasu

• Dydd Sul, 23 Rhagfyr: 5:30 – Dathliadau'r Nadolig yng Nghapel Caeathro

Cofiwch eu cefnogi – bydd croeso mawr i bawb.

Cyngor Cymuned
Llongyfarchiadau i Llio Jones, Glanrafon, ar ôl iddi gael ei chyfethol i'r sedd wag dros Ward Caeathro, Cyngor Cymuned Waunfawr.

Newyddion y Capel
Cynhelir y cyfarfodydd canlynol ym mis Rhagfyr:

Sul 2 Rhagfyr – 2:00 Oedfa o dan ofal y Gweinidog, y Parch Marcus Wyn Robinson

Sul 16 Rhagfyr - 2:00 Oedfa o dan ofal y Gweinidog, y Parch

Marcus Wyn Robinson
Sul 23 Rhagfyr - Dathliadau'r Nadolig gyda thrigolion y fro a'r Gweinidog, y Parch Marcus Wyn Robinson.

Clwb Merched Bu cyfarfod mis Hydref yn un hynod ddiddorol, oherwydd fe aethom fel criw ar ymweliad â'r Llysoedd Yng Nghaernarfon. I'n croesawu yno roedd Alecs Peate, y Cynghorydd Cyfreithiol, a Bethan Williams o'r Tim Gweinyddol. Bu inni dreulio amser eithriadol o ddifyr yn cael cyflwyniad ar y gwahanol fathau o Lysoedd sydd oddi fewn i'r adeilad newydd yma yn y Dre, ac i'w swyddi penodol hwythau o fewn y sefydliadau hynny. Diddorol iawn oeddynt yn egluro cefndir gwaith Llys Barn. Wrth dalu'r diolchiadau ar ein rhan, dywedodd Marian Hughes, y llywydd, inni gael noson wych yn eu cwmni ac i ni gael agoriad llygad i'w swyddi a'u cyfrifoldebau.

Parti 'Dolig y Plant Iau
Bydd y Parti 'Dolig ar gyfer plant o oedran ysgol gynradd ac iau yn y cylch am 5:30, nos Lun 17 Rhagfyr yng Nghanolfan y Capel. Disgwylir dyn tymhorol a phwysig i ymweld â'r plant!

Canu Carolau Ar nos Fercher, 21 Rhagfyr am 7:00 y h. bydd Seindorf Iau Llanrug

yn arwain canu carolau o amgylch y goeden Nadolig. [Pe bai'r tywydd yn anffafriol bydd y noson yng Nghanolfan y Capel.] Wedyn bydd cyfle i gymdeithasu dros Gawl Cartref. Bydd casgliad at Apêl Guatemala Chymorth Cristnogol.

Tynfa Misol Enillwyr Tynfa Misol Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro ym mis Tachwedd oedd:

1af - £40, (29), Hywel Evans, Rhyddallt Ganol

2il - £25, (12), Zonia Bowen, Cefn Coed

3edd - £15, (94), Reg Chambers Jones, Hafod Wen
4edd - £5, (43), Gwenda Jones, Plas Glangwna.

Diolch i haelioni'r sawl sy'n cefnogi'r Tynfa Misol trwy'r flwyddyn bydd y pwyllgor unwaith eto yn medru talu am y digwyddiadau amrywiol dros yr Ŵyl.

Etholiad Daeth 39 o etholwyr i fwrw eu pleidlais am Gomisynydd yr Heddlu – allan o 209 sydd ar y Rhestr Etholwyr. Yn ychwanegol roedd nifer o bleidleisiau post.

Diolch a Chroeso.

Yn gynharach eleni mynegodd Clive James ei ddymuniad i roi'r gorau i fod yn ohebydd pentref Caeathro. Mae wedi bod wrth y gwaith ers nifer helaeth o flynyddoedd, a mawr yw ein diolch iddo am ofalu fod newyddion Caeathro yn cyrraedd mewn da bryd i'w cynnwys yn y papur. Gweithiodd yn ddiwyd i groniclo holl ddigwyddiadau'r pentref, gan gynnwys hefyd eitemau o Gyngor Waunfawr oedd yn berthnasol i'r pentref. Mae gan y Gaeathro ohebydd newydd bellach, a bydd Rhiannon Roberts yn dechrau ar ei gwaith yn syth wedi rhifyn y Nadolig. Ei chyfeiriad yw Cefn Rhos Isaf, a'r rhif ffon 01286 672215. Mae'r "Eco" yn hynod ddiochgar i Rhiannon am ymgymryd a'r gwaith, ac yn hyderus y bydd pentrefwyr Caeathro yn ei chefnogi.

Cefnogwch ein hysbysebwr

Cynnyrch a gwasanaethau priodol ar gyfer y rhai dros 50 oed

- Yswiriant Cartref
- Yswiriant Teithio
- Larymau Personol
- Yswiriant Car
- Nwy a Thrydan
- Cynlluniau Angladdau



Am bris heb rwymedigaeth, ewch i:

Age Concern Gwynedd a Mon
Ty Seiont, Ffordd Santes Helen
Caernarfon LL55 2YD
Ffôn: **01286 678310**
(ar agor 9am–5pm Mon to Fri)

Neu ffoniwch **0800 085 3741** neu ewch i
www.ageuk.org.uk/products



Darperir yswiriant cartref, car a theithio gan Yswiriant Ageas Cyfyngedig.
Darperir Nwy a Thrydan gan E.ON Energy Solutions Cyfyngedig.
Age UK yw nod masnach Age UK (Elusen rhif 1128267). Defnyddir enw a logo Age UK o dan gytundeb trwydded rhwng Age UK ac Age UK Enterprises Limited, sef eu cangen gwasanaethau masnachol. Rhoddir yr elw net i Age UK. Age UK Enterprises Limited, Linhay House, Ashburton, Devon TQ13 7UP. ID9975 11/10 MP2430V2APR11 SL031616_11_1

BYSUS RHIFLAS
Bysus bach amgylch ar gael ar gyfer pob math o bwrdd gwybodaeth a busnes allan o'r parhau trwm a'r gwasanaeth personol a thelerau rhestruol gan: (01248) 361044

D. P. OWENS RHIFLAS

Nadolig Llawn
A Blwyddyn Newydd Dda
i holl ddarllenwyr yr Eco

Hoffwn ddiolch i'n
cwsmeriaid lleol am eu
cefnogaeth trwy gydol y
flwyddyn!

Caffi Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail
www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org
01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)



NANT PERIS

Kate Pritchard (872331) neu
econantperis@hotmail.com

Eich Gohebydd pentref o hyn ymlaen fydd Kate Pritchard. Gyda diolch i Llinos Jones am wmeud y gwaith dros y blynyddoedd diwethaf.



Daniel ar ei faglau

Yn Gwella Da oedd deall fod un o ddosbarthwyr ieuengaf yr Eco, yn gwella. Yn dilyn damwain i'w ben-glin, mae Daniel Roberts 4 Bro Glyder,

dosbarthwr yr Eco yn ardal Nant Peris, wedi bod ar faglau ers rhai misoedd. Diolch yn fawr iddo am ail afael yn y gwaith dosbarthu a diolch i'w deulu am ddosbarthu pan nad oedd Daniel yn medru.

DINORWIG

Marian Jones.
Ffôn: (01286) 870291

Tymor yr Hydref Y gaeaf bron ar ein gwarthaf erbyn hyn a'r dail wedi disgyn oddi ar y coed ac wedi oeri yn arw. Gweithgareddau y gaeaf i gyd wedi dechrau a llawer un wedi cael anwyd go drwm. Cyfarfod Diolchgarwch wedi bod, pryd y cafwyd diwrnod llewyrchus iawn yn Ebeneser. Yn yr hwyr braf iawn oedd gweld yr ifanc wedi troi i mewn i'r oedfa, a phawb yn falch o'u gweld. Braf oedd gweld eira ar ben y mynyddoedd ar Hydref 31. Byddai yr henoed yn dweud bob amser fod eira yn mis Hydref yn erthylu y gaeaf. Gobeithio bod hyn yn wir, ac na fydd gaeaf yn rhy ddrwg.

Adref o'r Ysbyty Da yw deall fod Mrs Alice Griffith, Tan y Bwlch, adref o'r ysbyty erbyn hyn. Bu i Mrs Griffith syrthio yn y tŷ a bu yn Ysbyty Gwynedd ac yna yn Ysbyty Eryri, Caernarfon. Mae Ann, y ferch, wedi dod adref o'r de i edrych ar ei hŏl am gyfnod. Mrs Griffith, brysiwch wella.

Mae Mrs Yvonne Brennan yn Ysbyty Gwynedd ers rhai dyddiau bellach. Fe aeth hi yn wael yn y cartref a'r ferch, Roselynnne, wedi dod gartref. Dymunwn adferiad llwyr a buan iddi hithau.

Hefyd mae yn wir ddrwg deall nad yw Mrs Alice Thomas, sydd yn cartrefu yn Plas Pengwaith, wedi bod yn rhy dda yn ystod y dyddiau olaf yma. Anfonwn ein cofion atoch, a gobeithio y byddwch yn teimlo yn well yn fuan.

Llongyfarchiadau mawr i Miss Nellie Wyn Jones, Ty'n y Fawnog, ar ddathlu pen-blwydd arbennig iawn. Gobeithio y bu ichi fwynhau eich diwrnod.

Hefyd fe fydd Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi, yn dathlu pen-blwydd arbennig ddechrau'r mis nesaf. Dymunwn yn dda ichi eich dwy a llawer blwyddyn eto, gan ddymuno pob bendith ac iechyd ichi i'r dyfodol.



Dim ond **£159*** y mis

Gyda

3

Blwyddyn o **yswiriant**
Blwyddyn o wasanaeth arferol
Blwyddyn o dreth y car
Blwyddyn o wasanaeth achub
Blwyddyn o warant llawn

Cofiwch chi y tanwydd!

- Rwan ar gael i ddreifwyr
dros 21 oed!



Cefnogwch gyflogwr lleol - £50 o danwydd i ddarllenwyr yr Eco gyda phob car newydd

PEUGEOT 208 NEWYDD

Mae'r Peugeot 208 newydd rwan a'r gael yma yn Elim Peugeot. Yn ysgafnach a llai ar y tu allan, ond gyda mwy o le tu mewn mae iddo mwy na digon i ddal y llygaid. A gyda gwasanaeth "Just Add Fuel" sydd ar gael gan Peugeot yn unig, y cwbl sydd rhaid chi gofio ydi'r tanwydd! **Ffoniwch ni heddiw i brofi y Peugeot 208 dros eich hun.**

MOTION & EMOTION



ELIM PEUGEOT

Parc Bryn Cefni, Llangefni, Ynys Mon Ffon: 01248 750251
www.elimpeugeot.co.uk

* Pris ar gyfer 208 Access 1.0 3dr i berson 35 mlwydd oed yn byw yng nghanol pentref Llanberis. Blaendal £1,303.25, 35 taliad misol o £159.00, cost credit a ffoedd £1,250.17 APR 6.4%. Contract 6,666 milltir y flwyddyn. Cost o 9c y milltir dros hyn. Taliad misol i berson 21 mlwydd oed fyddai £199.65. Tolerau ac amodau llawn ar gael yn y gartref neu ar y wefan www.peugeot.co.uk. Dangosir 208 Ice Velvet yn y llun hwn sydd ar gael am gost ychwanegol. Y ffigyrau effeithlonrwydd swyddogol mewn milltir y galwyn (l/100km) ac allyriad CO2 (g/km) ar gyfer 208 yw: Urban 78.4 - 34.9 (3.6 - 8.1), Extra Urban 88.2 - 62.8 (3.2 - 4.5), Combined 83.0 - 48.7 (3.4 - 5.8) a CO2 87 - 135.



Nant a Tegid yng ngwisg yr Orsedd.

Derbyniwyd Nant a Tegid Roberts i Orsedd y Wladfa mewn seremoni wrth Feini'r Orsedd yn y Gaiman, Dyffryn Camwy, ar ddydd Iau 25 Hydref eleni. Eu henwau yng Ngorsedd yw Nant Uwchlllyn a Tegid Alltwen ac roeddynt yn falch iawn o'r anrhydedd a ddaeth i'w rhan.



Hefyd, ein dymuniadau gorau am wellhad buan i Megan Axon, 13 Hafan Elan, ac i unrhyw berson yn y pentref sydd wedi

Dymuna Gertie ac Ellen, 4 Hafan Elan, Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i'r teulu, ffrindiau a chymdigion am na fyddant yn gyrru cardiau eleni.

Mae'r Clwb Cinio yn eithriadol
o lwyddiannus gyda diolch

Cynhelir Bore Coffi yn Hafan, Ffordd Glanmoelyn (tŷ Gwyndaf a Mair) ar fore Mercher, Rhagfyr 2il, rhwng 10 a 12 o'r gloch. Bydd yr elw yn mynd at gasgliad arbennig Capel y Rhos sef Apêl Guatemala. Croeso cynnes i unrhyw un alw i mewn.

[illegible]

J.M. JONES
a'i Feibion
LLANRUG

Gwaith Coffaol

Ffon Gwaith
01286 672898

Cartref
01248 679089

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

W

MERCHED Y WAWR

Nos Fawrth, Tachwedd 13, croesawyd pawb gan y Llywydd, Mair Huws, a chanwyd Cân y Mudiad Dymunwyd pen-blwydd hapus arbennig i Margaret Jones. Llongyfarchwyd Meirwen a Selwyn ar ddod yn daid a nain balch i Elisa Alys, merch fach Owain a Glesni. Yn dilyn y prosiect llwyddiannus o gasglu esgidiau tuag at Achub y Plant, prosiect Casglu Bagiau sydd dan sylw y tro hwn. Derbynnir unrhyw fagiau – bagiau llaw, siopa, colur, cefn, cès, pyrsiau, bagiau plant, bagiau hen a newydd mewn unrhyw gyflwr. Byddant yn cael eu trosglwyddo i Gymorth Cristnogol, sef elusen ein Llywydd, Gill Griffiths.

Cynhelir cwrw Creffty Gogledd
yng nghanolfan y Groes Goch
Abergele, dydd Sadwrn, 19
Ionawr. Bydd Cinio'r Llywydd
Cenedlaethol yng nghwmni
Gill Griffiths yng ngwesty
Plas Isaf, Corwen, ar Sadwrn
16 Mawrth. Y cyntaf i ymateb
gyda thâl o £19 gaiff le.

Cynhelir Gŵyl Haf 2013 yn Ysgol Bro Ddyfi, Machynlleth. Mae cystadlaethau Crefft ac Adloniant a chystadleuaeth ychwanegol o dynnu llun hoff fag ac yna ysgrifennu stori micro am hanes y bag neu'i gynnwys.

Cynhelir Bowllo Deg
Rhanbarth Arfon yng
Nglasfryn, Y Ffôr, ar nos
Wener, 4 Ionawr am 6.30

Gwestai'r noson oedd Eirian Pritchard, cyn bennaeth ysgol Bontnewydd – un sy'n falch o'i chysylltiadau â Bethesda a Deiniolen ac yn perthyn yn agos iawn i Mair Huws. Buan iawn y daeth pawb ohonom i ddarganfod 'mor ddifysur

yw ei dawn', a hynny nid yn unig yn ieithyddol ond yn gelfyddydol hefyd. Wedi'r paratoi trylwyr, swynwyd pawb ohonom gyda'i dawn o wneud yr addurniadau mwyaf cywrain allan o ddeunyddiau syml. Pwysleisiai fod y diddordeb mewn celf a chrefft yn golygu yr awydd i greu, amser, llawer o amynedd ac, wrth gwrs, yr ochr ariannol hefyd. Roedd y dasg o wneud seren gyda weiren hyblyg yn edrych yn dasg mor hawdd gan ei haddurno gyda gleiniau amryliw. Dangosodd mor hardd oedd gallu gwneud addurniadau effeithiol hefo moch coch, pasta a 'pompoms'. Roedd enghreifftiau o'r pomander, bagiau lafant, wyau polisteirin, crosio, gwaith peiriant celfydd, cardiau pwyth croes, torchau a ffedogau Nadoligaidd, clustogau a baneri Nadolig Llawen yn wledd i'r llygaidd.

Diolchwyl i Eirian gan Nan Humphreys – bu'n orig hynod o ddiddorol, llawn brwdfrydedd ac yn fodd i'n hysgogi i fynd at i greu rhywbeth Nadoligaidd ar gyfer Gŵyl y Geni. Enillwyd y raffl gan Myfanwy. Diolch i Helen, Julie, Nan a Pat am y baned. Ar Ragfyr 11 byddwn yn dathlu'r Nadolig yng Nghlwb Golff Caernarfon. Bydd y bws ym Mhenisarwaun am 6.45.

Cylch Ti a Fi Mae'r cylch yn bwriadu dechrau Pêl Bonws Loteri. Mae rhai rhifau ar ôl am £1 yr wythnos. Os dymunwch ymuno, cysylltwch â Enid Jones yn Cylch Ti a Fi neu yn y Cylch Meithrin yn yr ysgol Gynradd. Rydym angen eich cefnogaeth.

Pêl Bonws y Cylch Meithrin

- dyma'r enillwyr diweddaraf:

Tachwedd 5 – Mrs. Nancy
Hughes (rhif 10)

Tachwedd 12 – Tami Jones (rhif

45)

Tachwedd 19 – Tomos, Berian a
Betsan Llwyd (rhif 14)

Diolch am gefnogaeth pawb.

Capel y Rhos – Oedfaon mis Rhagfyr

Rhagfyr 2 – Y Gweinidog - Parch. Marcus Wyn Robinson

Rhagfyr 9 – Parch. W. R. Williams

Rhagfyr 16 – Y Gweinidog

Rhagfyr 23 – Oedfa dan ofal yr aelodau

Rhagfyr 30 – Parch. Olwen Williams

Cynhelir Gwasanaeth Nadolig yr Ysgol Sul ar nos Iau, Rhagfyr 20fed, am 6 o'r gloch. Ar ddiwedd yr oedfa, bydd paned a mins pei ar gael yn y festri. Croeso cynnes i bawb.

Bore dydd Nadolig, cynhelir gwasanaeth byr teuluol yn y festri am 9 o'r gloch. Bydd cyfle i'r plant ddod ag un hoff anrheg gyda nhw i'w ddangos i'r gynulleidfa.

[illegible]

WAVELL'S
Bryn ac Angela Williams
London House, LLANRUG
Ffôn:
(01286) 673574
PEN CIGYDDION Y FRO
Yr wy'n lleoli nwyaf blasus
Selsig cartref
Cigoeidd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhwygist
MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

CERIS JONES
Region
Sled Tellyhon
LLANRUG
677362
new synwdd
07979620996

PADARN LAKE

LLANBERIS (01286) 870260



**PRYDAU DA AR GAEL
POB DYDD**

CANOL DYDD

A GYDA'R NOS

**Cinio Dydd Sul (CARVERY) rhwng
12.30 a 3.00 o'r gloch**

TE BACH POB DYDD RHWNG 2.30 a 5.00

Cyfleusterau- Bartion • Priodasau ac Achlysuron Arbennig

 RHEILFFORDD LLYN PADARN
LLANBERIS LAKE RAILWAY



Nadolig Llawn a Blwyddyn
Newydd Dda i holl ddarllenwyr Eco'r Wyddfa

Diolch am ein cefnogi
drwy gydol y flwyddyn



Parc Gwledig Padarn, Llanberis,
Gwynedd LL55 4TY
www.lake-railway.co.uk
01286 870549





CHWILOTA

Jiwbili'r Frenhines.



Ymddiheuriadau eich mawrhydi am fod braidd yn hwyr yn nodi'r dathliad: a bod yn onest, dros ganrif yn hwyr, gan mai son rydw i am Jiwbili y Frenhines Victoria a ddathlwyd yn 1887. Roedd Victoria erbyn hynny wedi bod yn teyrnasu am hanner can mlynedd, ac yr oedd yr holl ymerodraeth am ddathlu!

Ond pam son am y digwyddiad rwan? Y llun a welir ar y dudalen hon sy'n gyfrifol am hynny. Clywais son lawer tro am Foel Rhiwen yn cael ei alw yn Fynydd Jiwbili, a chlywais hefyd am y coed ar y mynydd wedi eu torri i ddathlu achlysur hanner can mlynedd teyrnasiad Victoria, ond doeddwn i erioed wedi gweld llun i brofi hynny. Wel, dyma fo! A diolch i Islwyn Roberts. Llanrug, am gael ei atgynhyrchu.

Fely gwelwch, roedd y 'JUBI' ar ochr ogleddol y mynydd, a'r 'LEE V.R. 1887' uwchben pentref Ebenezer fel yr oedd bryd hynny. Stâd y Faenol oedd perchnogion y mynydd, ac felly mae'n deg synied mai Assheton Smith fu'n gyfrifol am dalu i'w weithwyr i dorri'r coed i gronico'r dathliad. Ond a roddwyd sylw i hynny yn y wasg leol?

Bum yn pori drwy rifynnau'r Herald Cymraeg am ddechrau blwyddyn 1887, gan chwilio am gyfeiriadau at y Jiwbili. Doedd y dathliad ddim yn cael cymaint â hynny o sylw. Rhyfel y Degwm oedd yn hawlio'r prif bennawdau, ond roedd trigolion y trefi, megis Biwmares, Bangor a Chaernarfon eisoes wedi cychwyn ar gynnal cyfarfodydd i drafod sut orau i ddathlu.

Casglu arian i adeiladu "Sefydliad Ymherodrol" yn Llundain oedd bwriad y Llywodraeth, ond roedd nifer o academyddion yng Nghymru yn teimlo y dylai'r dathlu fod yn fwy 'Cymreig' ei natur, ac yn adlewyrchu dyheadau'r Cymry. Roeddent yn galw am ddatblygiad ym myd addysg, a chafwyd son am gasglu arian tuag at sefydlu Ysgoloriaeth y Jiwbili ym Mangor.

Yng Nghaernarfon, aeth yn ddadl rhwng gwario ar ysbyty lleol neu 'Institute'. Yr Institute aeth â hi, ac fe agorwyd yr adeilad sy'n parhau'n weithredol yn Stryd Bangor heddiw, ar Fehefin 21ain.

Prin bod son am ddathlu ym mhentrefi'r dyffryn hwn, ond fel

y dynesai mis Mehefin a dyddiad y dathlu, daeth y newyddion fod Assheton Smith am anrhegu ei holl weithwyr yn Chwarel Dinorwig gyda thrip am ddim i Lundain ar Fehefin 20fed. Roedd yn rhoi hawl i wragedd y chwarelwyr fynd hefyd am bris gostyngol, a sicrhodd na fyddai neb yn colli cyflog er eu bod yn absennol o'r chwarel am ddau ddiwrnod. Does dim sicrwydd faint yn union a fanteisiodd ar y cynnig hwn, ond yn ôl adroddiadau, aeth rhai cannoedd ar drên arbennig o Lanberis i Lundain, a bu canmol mawr ar y trefniadau. Dyma'r tro cyntaf (a'r unig dro, mae'n debyg) i lawer o'r gweithwyr gael cyfle i ymweld â'r brifddinas, a hynny ar amser pan oedd wedi ei haddurno i'r eithaf.

Bu'n rhaid i drigolion Llanberis ac Ebenezer oedd yn dal gartref, fodloni ar eu dulliau arferol o ddathlu, sef cynneu coelcerthi ar gopa'r Wyddfa a'r Elidir, a thanio'r cerrig cannons.

Does wybod beth ddigwyddodd yn Llanrug na Bethel: methais a chael unrhyw hanes dathlu yn yr un o'r ddau bentref. Roedd trigolion y Waunfawr braidd yn hwyr, ac ar ôl y dathliad swyddogol y cawsant hwy de parti anferth, a hynny wedi gorymdaith gerddorol o amgylch y pentref yn cael ei blaenori gan Fand Nantlle. Yn dilyn y te parti (ac yfed 'galwyni o de dail yr India') cafwyd cyngerdd gan ddoniau lleol. Talwyd am y cyfan gan y Parch John Parry, genedigol o Gwastadfaes, ond erbyn hynny yn rheithor cefnog yn Northfield, Birmingham. Y fo yn ddiweddarach, ail-adeiladodd Blas y Nant ym Metws Garmon a dychwelyd yno ar ôl ymddeol.

Ond er yr holl ddathlu, methais a chael unrhyw gyfeiriad at Goed y Jiwbili ar Foel Rhiwen. Tybed pryd y dechreuwyd ar y cynllun, ac am ba hyd y parhaodd y patrwm ar lethrau uchaf y mynydd?

Mwy eto o rowndiau llefrith

O'r diwedd daeth newyddion am rowndiau llefrith yn ardal Deiniolen, Dinorwig a Chlwt y Bont gan Brython Jones, Caernarfon (Post, Clwt y Bont gynt). Gyda diolch am y wybodaeth, a fydd efallai yn ysgogi cof ambell un arall o'r ardal!

Dyma restr o'r gwerthwyr llefrith yr oedd yn eu cofio:

Robert Jones, Graianfryn yn gofalu am ardal Clwt y Bont a Deiniolen. William Owen Roberts, Blaen y cae, oedd y gwerthwr, ond mai Richard Owen, Groeslon Blaencae oedd yn gyfrifol am wneud y 'rownd'. W.R.Hughes, Glandinorwig (Wil y Felin) yn gwerthu ei lefrith ei hun yn ardal Clwt y Bont a Deiniolen. William Roberts, Tal y Waen, eto'n gwerthu ei lefrith ei hun ac yn cario mewn fflôt i Ddinorwig a rhannau uchaf Deiniolen. Bu farw yn 1940, ac am gyfnod bu ei fab, Gwilym yn danfon mewn car. Daniel Jones, Blaencae gyda rownd hyd tua 1936, a Robert Jones ei fab yn parhau â'r gwaith (sef taid a thad Geraint a'r ddiweddar Jean Parc). R.M.Thomas (Dic Rhydu).

Erbyn hyn cafwyd rhestr eithaf cynhwysfawr o werthwyr llefrith y fro, ond mae'r wybodaeth am Fethel a'r Waunfawr yn parhau'n denau. Ac y mae lluniau yn dal yn brin.

Teulu Bing, Llanberis.

Daeth cais gan Ernie Pennant Roberts, Gyffin, Conwy (Llanrug gynt) am deulu ei fam, a anwyd yn Bing yn 1903 yn ferch i Solomon a Jane Williams. Jeannie oedd ei henw, ac yr oedd hefyd dair chwaer arall sef Mary, Annie a Grace, a dau frawd, Wil a Roy.

Does dim son am y teulu yn Bing ar Gyfrifiad 1901, ac erbyn 1911 roeddent yng Nghlwt y Bont, ond does dim son am y tad, Solomon. Rywdro wedyn, symudodd y teulu i Minafon, Cwm y Glo.

Hoffai Ernie dderbyn unrhyw wybodaeth am y teulu yn ystod y cyfnod cyn symud i Gwm y Glo. Oes rhai o ddisgynyddion y plant yn parhau yn yr ardal heddiw gyda'r wybodaeth? Gellir cysylltu ag Ernie yn 31 Bryn Castell, Gyffin, Conwy neu ar 01492 583796.

Y mis nesaf (o fewn cwta bythefnos!) gobeithiaf barhau â hanes y Tysons a theulu'r miliynydd o Awstralia, yn dilyn mwy o wybodaeth gan un o'u disgynyddion. Os oes unrhyw wybodaeth neu gais gennych ynglyn â hanes lleol y fro, yna cysylltwch â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug. (Ffôn: 01286 673515)



CHWILOTA

Parhad



Bws y 'Bangor Blue.'

Tra'n trafod yr hen lun o Glwt y Bont ddeufis yn ôl, soniwyd fel yr oedd y lôn heibio i Rhes Uchaf yn cael ei galw yn Lôn y Bangor Blue, ac mai'r dybiaeth oedd mai bws o'r lliw hwnnw a deithiai o Fangor i Ddeiniolen ar hyd y ffordd hon.

Cysylltodd John Maldwyn Jones o Fethel (Deiniolen gynt), i ddweud ei fod yn cofio'r Bangor Blue yn rhedeg pan oedd yn blentyn, ond mai bws Crosville o liw gwyrdd ydoedd! Mae'n bosib fod gwasanaeth cynharach yn bodoli, ac mai bws glas oedd hwnnw nes i gwmni Crosville gymryd drosodd yn ddiweddarach. Gwasanaeth dyddiol o Fangor i Lanberis oedd y Bangor Blue, ac yn galw yn Neiniolen. Cyrhaeddai'r bws cyntaf tua hanner awr wedi naw y bore, un arall am tua hanner awr wedi deg; un yn y pnawn tua hanner awr wedi tri, a'r olaf am tua hanner awr wedi wyth y nos. Yna, ai yn ei flaen am Lanberis drwy Frynrefail, a dychwelyd yr un ffordd. Byddai'n hwylus i gario pobl Deiniolen yn ôl o'r sinema yn Llanberis ar y bws diwethaf bob nos!

Yr hyn oedd yn wahanol am y bws oedd ei fod yn teithio o Stryd Fawr, Deiniolen i lawr Lôn Coparet (meddyliwch pa mor gul yw honno i fws!), ond roedd pob bws arall yn defnyddio Lôn Bwthyn.



Mae'r llun yn dangos Bws Rhiwen gydag O.R.Jones, Swyddfa'r Post ar stepan y drws. Ond tybed oes gan rywun lun o fws y Bangor Blue?

Diolch hefyd i Alwyn Jones, Racca, am gysylltu gyda'r un wybodaeth.

Iflach

CD Newydd

Wil Tân

Llanw ar draeth

WILTAN

llanw ar draeth

LLYFR EMYNAU

MA' POPETH YN DDA

DEWI PWS

CD Newydd

Dewi Pws

Ma' popeth yn dda

www.fflach.co.uk

Y ddau allan NAWR!

Un funud fach ...

TUNIAU

Mae pentyrrau ohonyn nhw yn y siopau mawr a bach ers wythnosau. Ac maen nhw'n dipyn o fargen yn ôl pob tebyg. Mae popeth yn costio mwy bob dydd, ond mae'n siŵr gen i fod tuniau da-da yn rhatach nag oedden nhw'r llynedd. Mewn mwy nag un siop, cewch dun mawr am £5 eleni, ac os cofiaf yn iawn mae hynny dipyn llai nag oedden nhw'r adeg yma'r llynedd a'r flwyddyn cynt.

Ond mae'r cwmnïau sy'n eu cynhyrchu wedi bod yn gyfrwys a chlyfar dros ben trwy wneud y tuniau'n llai. Nid bod hynny'n gwbl amlwg, ond os cymharwch chi'r tuniau presennol efo hen duniau gawsoch chi flwyddyn neu ddwy'n ôl, mi welwch chi fod y tuniau'n llai a bod llai o dda-da ynddyn nhw. Wrth eu pwysau y gwerthir y da-da, ac mae llai o bwysau yn y rhan fwyaf o'r tuniau. Nid bod hynny'n beth drwg chwaith. Gall fod yn beth da iawn o ran iechyd a lles dannedd pobl. Ond go brin mai meddwl am ein hiechyd y mae'r cwmnïau wrth wneud hyn chwaith. Ffordd effeithiol yw hi ganddyn nhw o roi'r argraff ein bod yn cael bargaen a hanner. Dydyn nhw ddim yn ein twyllo, wrth gwrs, gan eu bod yn nodi'r pwysau'n ddigon clir ar y tuniau. Ond maen nhw am i ni feddwl ein bod yn cael bargaen a hyd yn oed fwy o werth am arian.

Mae'n werth cofio fod yr Efengyl yn dal i roi 'gwerth am arian'. Nid ein bod yn gorfod talu amdani chwaith, gan mai trysor a gawn yn rhad ac am ddim trwy ffydd yn Iesu Grist yw bendithion yr Efengyl. Ond nid yw'r bendithion hynny yn llai o gwbl wrth i'r blynyddoedd fynd heibio. Maen nhw'r un faint ac o'r un ansawdd heddiw ag erioed. Mae Duw yn dal yn Dad cariadus; mae Crist yn dal yn Waredwr trugarog; mae'r Ysbryd Glân yn dal yn gynorthwywr parod; mae'r Beibl yn dal yn llusern olau; mae'r Efengyl yn dal yn newyddion da; mae'r Eglwys yn dal yn gymdeithas grediniol. Nid yw Duw yn cynnig llai heddiw nag y bu'n ei gynnig ar hyd y cenedlaethau.

Ac mor bwysig yw i Gristnogion ac eglwysi gofio hynny a bod yn ddigon hyderus yn eu cenhadaeth ar sail hynny. Mae Efengyl gras yr un mor werthfawr ag erioed. Mae Iesu Grist gymaint o Waredwr a Chyfaill ag erioed. Mae'r Ffydd Gristnogol yn cynnig cymaint o gysur a gobaith ag erioed.

Bargaen neu beidio, rhaid i chi agor y tun a bwyta'i gynnwys i'w fwynhau. A chaiff neb olwg ar werth yr Efengyl chwaith heb ei derbyn a'i chredu, a'i bwyta'n awchus!

JOHN PRITCHARD

FFRAMIA

Parc Padarn, Llanberis

(01286) 870922

www.fframia.com

Gwasanaeth Fframio Lluniau

Dewis eang o luniau yn yr Oriel ac ar y wefan

William Selwyn, Bob Perry, Keith Bowen, Keith Andrew a Rhys Iwan

Gwesty

Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



Gwasanaethau Capel Tanycoed

Rhagfyr 2:	11.00 a.m. – Y Parchg Dewi Tudur Lewis 6.00 p.m. – Cyfarfod Gweddi
Rhagfyr 9:	11.00 a.m. – Y Parchg Mark Thomas 6.00 p.m. – Cyfarfod Gweddi
Rhagfyr 16:	11.00 a.m. – Y Parchg Irvon Parry 6.00 p.m. – Cyfarfod Gweddi
Rhagfyr 23:	11.00 a.m. – Y Parchg John West 6.00 p.m. – Cyfarfod Gweddi
Rhagfyr 30:	11.00 a.m. – Y Parchg John Pritchard 6.00 p.m. – Cyfarfod Gweddi

Cyfarfod a Swper Nadolig Cynhelir oedfa fer a Swper Nadolig yng nghapel Tanycoed am 7.00 o'r gloch, nos Iau, Rhagfyr 20. Estynnir gwahoddiad cynnes i gymdogion a chyfeillion Tanycoed a'r ardal i ymuno â ni i ddathlu'r Nadolig.

Undeb y Mamau Cyfarfu'r aelodau yn Feed My Lambs Caernarfon bawn Mawrth, 20 Tachwedd. Croesawodd Mrs Auriel Howel bawb i'r cyfarfod a chafwyd gwasanaeth byr i ddechrau. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth rhai aelodau. Darllenwyd cofnodion o'r cyfarfod a gafwyd ym mis Hydref a thrafodwyd materion a godwyd. Bore Mins Peis, 2 Rhagfyr, rhwng deg a hanner dydd yn Feed my Lambs. Cinio Nadolig, 4 Rhagfyr, yn Bron Menai am hanner awr wedi hanner dydd.

Gwasanaeth Carolau yn Eglwys Sant Mair, 18 Rhagfyr, am ddau o'r gloch. Y gwesteion oedd y Parch Jeffrey Hughes a Mrs Elsie Hughes. Cafwyd sgwrs ddiddorol iawn gyda sleidiau am ei taith i Rwsia. Diolchwyd iddynt gan Mrs Louie Jones. Yn gofalu am y lluniaeth oedd Marjorie. Dorothy, Gwyneth a Hilda a diolchwyd iddynt gan Auriel. Enillwyd y raffl gan Mrs Pat Walden. Terfynwyd y cyfarfod trwy adrodd y gras yn Gymraeg a Saesneg.

Adolygiad CD 'Portreadau' (Harri Parri)

"Daeth Nadolig yn ei dro gyda'i gân a'i garol..." yr ymgymwrwr a diacon gyda'r Bedyddwyr a ac y maen hwyr bryd rhoi rhywbeth solet ar oedd yn dad yng nghyfraith i'r awdur. waelod yr hosan! Beth gwell, a hynny am £5 yn Dyma CD sy'n llawn dwyster a doniolwch, unig, na chryno-ddisg wych newydd gan Harri yn artistig ac yn hynod ddifyr i wrando arni. Parri a gyhoeddwyd ddechrau'r mis hwn gan Mynnwch gopi, nid yn unig fel anrheg i arall, Wasg Utgorn Cymru. ond i chi'ch hunan yn ogystal! Arni ceir saith o bortreadau hyfryd gan y gŵr Ar gael o'ch siop lyfrau Cymraeg lleol, neu o Llyn sy'n un o'n prif awduron. Cawn glywed trwy'r post: ffoniwch 01286 660 853 /655. am gymeriadau sy'n rhychwantu dwy ganrif (Bydd tâl ychwanegol (£1) am gludiant). a rhagor, yn cynnwys pregethwyr, siaradwr Geraint Jones 'iaith y brain', dihiryn 'teuluol' ac, wrth gwrs, Gwasg Utgorn Cymru



Oes gennych chi ychydig o oriau i'w sbario?
Ydydych chi yn berson cymdeithasol?
Hoffech chi wneud gwahaniaeth?
Fedrwch chi gynnig cyfeillgarwch?

Mae **Ffrindia'** angen Gwirfoddolwyr brwdfrydig i gefnogi Unigolion dros 50 oed sydd angen cwmniath.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch gyda:

NIA HAF JONES
01286 685929

nia@mantellgwynedd.com

**Baled Nadolig Tesco**

Nid oedd disgyn y dail eto yn llawn na llwch Guto Ffowc wedi setlo yn iawn, roedd ogle tan gwyllt yn dew dros y fro a'u clec a'u clindarddach 'n dal yn y co'.

Rhyw ddiwrnod neu ddau, wedi'r dathlu hwyr criw y powdwr a'r ffiws – a'u methiant llwyr... piciais i TESCO [mor gyfleus – a rhad!] di feddwl am bicil 'siop bach y wlad'!

Dros awtomatig yn agor a chau i gadw awyrgylch gynnes y ffau... Arhosais yn stond! Oherwydd dros nos gweddnewid a fu ar boster a ffos!

Hen neges ein nawddsant – hyd byth i fod – 'Gwnewch y pethau bychain' – dyna y nod... ond heddiw yn TESCO [dau ddeg un deg dau!] meddiasant ein logo – a'i ysgafnhau!

'Cewch 'Ddolig gwahanol – un y PETHAU BACH os prynwch yn helaeth – cewch fwy i'ch sach!' Yn unlle yno – mewn awgrym na llun – oedd beudy, nac asyn, na mansiar – na mun –

na Joseff y Saer – na doethion, na gwreng hen breiddiau y ffriddoedd – na'r sêr yn lleng! O ia, parseli – ac eira hud ond dim arwydd yn unman o hud y crud!

Yma – diystyr yw AMSER A GŴYL yma – di ystyr yw popeth – ond hwyl... Ond ust! Gwrandewch! fe fydd carol a chlych – hyd byth bydd Bethlehem – a llety yr ych!

Norman Closs – Parry



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad
Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch **AC** mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
alunffred.jones@cymru.gov.uk



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch **AS** mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk

Ysgol Gymuned

Ymweliad 'Zoo Lab' Cafodd y plant gyfle i weld a gafael mewn gwahanol drychfilod yn y dosbarth bawn dydd Iau, 8 Tachwedd. Roeddent wedi mwynhau'r profiad o wneud hyn.

Diwrnod Plant Mewn Angen Cafodd y plant gyfle i ddod i'r ysgol wedi gwisgo mewn gwisg ffansi dydd Gwener, 16 Tachwedd. Trosglwyddwyd £92.40 i Gronfa Plant Mewn Angen. Diolch i bawb am eu cyfraniadau.

Diwrnod yn Ysgol Brynrefail Bydd Bl 6 yn cael cyfle i dreulio diwrnod yn Ysgol Brynrefail dydd Mawrth, 4 Rhagfyr.

Noson Ddarllen Cynhaliwyd noson i ymgyfarwyddo rhieni â'r rhaglen ddatblygu darllen 'Bug Club'. Mae'r rhaglen yn galluogi plant i ddarllen llyfrau ar eu cyfrifiaduron adref. Enillodd Delyth Gayther y raffl ar gyfer y tocyn llyfr gwerth £25.

Ffair Nadolig Cynhelir y Ffair yn yr ysgol nos Fercher, 5 Rhagfyr am 6 o'r gloch. Bydd amryw o stondinau a gobeithiwn y bydd Siôn Corn yn galw heibio.

Sioe Nadolig Cynhelir y Sioe Nadolig dydd Mercher, 12 Rhagfyr. Bydd perfformiad am 1.30 y pwnn a 6 yr hwyr. Bydd yn bosib prynu tocynnau o'r ysgol am £3.50 i oedolion a £2 i bensiynwyr a phlant ysgol Uwchradd. Croeso cynnes i bawb.

Gwersi Beicio Cwblhaodd plant Bl 5 a 6 hyfforddiant beicio'n ddiogel ar dydd Mercher, Tachwedd 14.

Diwrnod Gwisgo Siwmpwr Nadoligaidd Dydd Gwener, Rhagfyr 14 bydd cyfle i bawb ddod i'r ysgol mewn siwmpwr gwahanol wedi'u haddurno'n Nadoligaidd er budd casglu arian i Gronfa Achub y Plant.

Pantomeim Byddwn yn mynd i Venue Cymru, Llandudno,

bawn dydd Mawrth, 18 Rhagfyr i weld y Pantomeim 'Peter Pan'.

Adloniant yn y Gymuned Bydd rhai o blant yr ysgol yn ymweld â Chartref Nyrsio Penisarwaun bawn dydd Mercher, 19 Rhagfyr. Byddant yn diddori'r preswylwyr gyda gwahanol eitemau Nadoligaidd

Cinio Nadolig Bydd Anti Mandy yn paratoi'r cinio Nadolig ddydd Iau, 20 Rhagfyr. Mae cyfle i'r plant Meithrin ymuno â ni yn ogystal â'r plant sydd yn arfer cael pecyn bwyd.

Croeso 'nôl i Anti Carolyn i'r Clwb Brecwast.

Edrychwn ymlaen at ei gweld yn ôl yn paratoi'r cinio yn fuan. Gwyliau Nadolig Bydd yr ysgol yn cau dydd Gwener, 21 Rhagfyr ac yn ailagor i'r plant dydd Mawrth, 8 Ionawr.

Cronfa Pensiynwyr – Pêl Bonws Loteri Enillydd mis Hydref oedd Mrs Brenda Richardson gyda rhif 27. Llongyfarchiadau.

Marchnad Nadolig – Cynhelir y Farchnad yn Neuadd Eglwys Santes Helen dydd Sadwrn, 1 Rhagfyr rhwng 10 y bore a 4 yr hwyr. Bydd pob math o stondinau Nadoligaidd ar gael yn ogystal â chaffi a raffl. Mae croeso i unrhyw un ddod â stondin eu hunain am £5. (cysylltwch â Janet Ash - 871265) Bydd yr elw yn mynd i Gronfa Pensiynwyr Penisarwaun. Croeso cynnes i bawb.

Cinio Naolig y Pensiynwyr Eleni byddwn yn mynd i'r Clwb Golff i Gaernarfon dydd Sadwrn, 8 Rhagfyr. Bydd y bws yn cychwyn o flaen yr ysgol am 12.15.

Gwellhad Ein cofion gorau atoch i gyd sydd wedi bod yn sâl yn ddiweddar, gan obeithio y byddwch wedi llwyr wella erbyn y Nadolig. Ein cofion anwylaf at Mrs Mary Davies, 9 Llys y Gwynt, wedi triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

Llongyfarchiadau Yn dilyn llwyddiannau yn yr Eisteddfod Genedlaethol a 'Cân i Gymru' daeth Lois Eifion i'r brig unwaith yn rhagor gyda'r Alaw Werin yng Ngŵyl Gerdd Dant Conwy. Llongyfarchiadau i ti, Lois, a phob dymuniad da i'r dyfodol.

Llongyfarchiadau hefyd i Barti Llefaru Bechgyn Ysgol Brynrefail am eu camp hwythau yn yr Wyl.

Genedigaeth Llongyfarchiadau i Eirian a Huw Tegid ar enedigaeth eu merch fach, Cadi Lois, chwaer fach i Gwen Elin ac ail wyres i Nant a Tegid. Pob bendith arnoch chi fel teulu.

Diolch Dymuna Dic Parry, Tawelfa, ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, galwadau ffôn ac ymweliadau wedi ei driniaeth yn Ysbyty Walton Lerpwl.

Cydymdeimlwn yn ddwys â Carole Philpott, Cae Dicwm, ar ei phrofedigaeth o golli ei brawd, George, Tai Arthur, yn ddiweddar.

Ysgol Sul Bosra Fore Sul y Cadoediad cafwyd gwasanaeth yng Nghapel Bosra i gofio am y bechgyn a syrthiodd yn y rhyfeloedd ac ymunwyd gyda aelodau Eglwys Santes Helen wrth Gofeb yr Eglwys am 11.00 Cafodd y plant gyfle i roi pabi coch wrth y Gofeb.

Bydd aelodau'r Ysgol Sul yn ymuno, fore Sul, 23 Rhagfyr am 11 o'r gloch, gyda aelodau'r Eglwys i ddathlu Gŵyl y Geni mewn gwasanaeth Cristingl. Croeso cynnes i'r rhieni a ffrindiau.

Fore Sul, 16 Rhagfyr, gobeithir mynd ar Drên Bach Llanberis i gyfarfod Siôn Corn. Enwau i Fiona neu Elizabeth Jones os gwelwch yn dda.

Pwyllgor Neuadd Tynnwyd Clwb Cant Tachwedd a'r enillwyr oedd: Helen Stone, Llys Arddun a Huw Davies, Tyddyn Hendre.

Cynhelir Noson Wasael ar nos Iau, 13 Rhagfyr am 7 o'r gloch. Bydd eitemau gan blant yr ysgol, aelodau o'r pwyllgor ynghyd ag aelodau o Fand Arian Deiniolen. Ceir cyfle i ddathlu Gŵyl y Geni drwy gydganu'r hen Garolau a blasu pwnsh a mins pei. Mynediad £2 i oedolion a 50c i blant nad ydynt yn cymryd rhan.

Cyfarchion Nadolig

Dymuna Pat ac Arnold Jones, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'r teulu, ffrindiau a chymdogion. Yn hytrach na gyrru cardiau byddant yn anfon cyfraniad i Ambiwlans Awyr Cymru.

Dymuna Mrs Mary Davies, 9 Llys y Gwynt, Hwyl yr Wyl a Blwyddyn Newydd Llawn Bendithion i'w theulu, ffrindiau a chymdogion. Bydd yn anfon cyfraniad i Age Concern.

Dymuna Myra Griffith, 6 Bryn Eglwys, Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd Lewyrchus i'r teulu, cymdogion a ffrindiau ym Mhenisarwaun a Bethel.

Pen-blwydd Arbennig Pob dymuniad da i ti, Emyr, ar dy ben-blwydd arbennig ar 15 Rhagfyr. Cariad mawr gan Katy a'r plant, Ioan, Enlli, Gethin a Lois a'r teulu i gyd.

Eglwys Santes Helen Edrychir ymlaen at Wasanaeth Cristingl am 11 y bore lle bydd aelodau Ysgol Sul Bosra yn ymuno i ddathlu Gŵyl y Geni. Croeso cynnes i bawb.

APÊL

Parhau mae'r apêl am ohebydd i Benisarwaun a hynny i gychwyn ar ôl rhifyn y Nadolig – Rhagfyr 9fed.

Erfynnir am wirfoddolwr i gymryd yr awenau o dderbyn newyddion y pentref a rhoi ychydig o oriau'n fisol i adrodd am ddigwyddiadau'r pentref i ddarllenwyr ffyddlon yr Eco.

Cysyllter ar (872407) neu gyda Chadeirydd y Pwyllgor Gwaith, Geraint Elis, Bethel. Diolch.

L.G. OWEN

PENISARWAUN

GWAITH CERRIG-TIRLUNIO
 Gwaith Walio • Gwynebu
 Pointio • Gwaith Blocs • Patios
 Dreifs • Llwybrau • Gwaith Grafel
 Llechi • Ail Wneud Gerddi • Trin Coed
 Concretio • Tarmacio • BlocPavio • Dreinio
 Gwaith Cllirio • Ffensio • Decio A.y.b

● Gwaith o safon, Prisiau Cystadleuol ●
 Gwasanaeth Cyfeillgar - Gwbwl Yswiriedig

CYSYLLTWCH ▶ 01286 870318
NEU ▶ 07896739544
 www.gwyneddstonemasonry.co.uk

Dylan Griffith

Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

Gwaith Cerrig Beddi
 Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
 24 Awr y Dydd
 Capel Gorffwys Preifat
 Yn Gwasanaethu'r Holl Ardal

Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
 Cyrhaeddwch Mewn Steil Mewn Cerbyd *Rolls Royce*
 AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDD ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL



Dwi'n Afhro! Tynnwch fi o'ma!



Yr oedd rhai mewn cryndod yn disgwyl am eu tynged! Bu aelodau o'r chweched dosbarth wrthi trwy'r bore yn paratoi coctel o gynhwysion estron i aelodau o staff, rhai sydd yn arbenigo mewn bwyta, eu blasu a'u dadansoddi.

Trefnwyd yr ornest gan aelodau o flwyddyn 12 fel rhan o'u hymgyrch i godi arian tuag at achosion da. Ac yn wir, yr oedd y neuadd yn orlawn a'r holl ddisgyblion yn eiddgar i weld aelodau'r staff yn dioddef eu tynged. Fe fwriodd Mrs Sioned Roberts ymlaen gyda'r prawf blasu (er iddi fod yn ddiolchgar fod y bwced gerllaw)! Ar ddiwedd y dydd yr oedd yr ornest a drefnwyd gan Fflur, Cerian, Ffion ac Erin Haf o flwyddyn 12, yn llwyddiant aruthrol ac fe godwyd £90 tuag at yr achosion.

Tîm Pêl-droed blwyddyn 7


Y tîm gyda'r prif hyfforddwr, Mr Phil Holland, a'r Llumanwr, Gerallt Morris, blwyddyn 11, cyn y gêm ddiweddaraf yn erbyn Ysgol David Hughes. A wyddoch chi be, bu chwarae aruthrol o dda gan guro o 11-0. Rhannwyd y goliau rhwng Thomas Collins, Harry Tulliver, Aled Pritchard, Nathan Hughes ac Ifan Mansoor.

Ond yr oedd yr Hyfforddwr yn hapusach gyda'r perfformiad na'r llwyth o goliau oherwydd, yn ei farn ef, cafodd berfformiad tîm cyfan gan ei hogiau.

Mae'r fuddugoliaeth ddiweddaraf yn ymestyn rhediad buddugol y tîm wedi iddynt guro Syr Hugh a Botwnnog mewn gêm cwpan.



“Y byd i’n disgyblion a disgyblion i’n byd”



Disgo Pendalar

Ar ddiwrnod olaf yr haner tymor fe gafwyd dathliad sydyn o'r gwyliau o'n blaenau gyda disgo a neuadd yr ysgol yn ysgwyd yn sŷn y miwsig.

Trefnwyd yr oll gan Elin, Elliott, Poppy a Bethan o flwyddyn 12 yn rhan o'r ymgyrch i godi pres tuag at Barti Pendalar.

Wedi lluchio eu hunain ledled y neuadd yn steil 'Gangnam' roedd y dawnswyr hefyd yn falch o ddioddyd ysgafn i leddfu'r syched.

Ar ddiwedd yr hwyl a'r sbri yr oedd y trefnyddion ar ben eu digon gyda chyfanswm o £118 yn mynd tuag at y dathliad Nadolig.



Gwenllian Roberts, Prif Swyddog Ailgylchu

Ar gais pwyllgor Eco'r Ysgol, fe gafwyd cyfarfod yn ddiweddar gyda Gwenllian Roberts, Prif Swyddog Ailgylchu Gwynedd.

Y mae'r pwyllgor yn ymgeisio i aildrefnu rhai o weithdrefnau'r ysgol gan geisio creu awyrgylch mwy gwyrdd a thwy hynny anelu at un o safonau Gwynedd: Efydd, Arian neu Aur.

Yr oedd y wybodaeth a gafwyd gan Gwenllian yn fan dechrau ar y daith safonau ac yr oedd ei sgwrs ddiddorol iawn yn ymgeisio i egluro pa bethau y gellid eu gwneud trwy gydweithredu gydag adran Ailgylchu Cyngor Gwynedd.

Mi fydd y pwyllgor yn bwrw ymlaen i greu cynllun gweithredu yn canolbwyntio ar bethau y gallwn fel ysgol, eu cyflawni – o droi goleuadau i ffwrdd pryd nad oes angen eu defnyddio i brynu papur sydd ei hun wedi ei greu o adnoddau sydd wedi eu hailgylchu.

Y mae'r pwyllgor hefyd yn bwriadu chwarae eu rhan yng nghymuned Llanrug.



Antur Waunfawr Banc Dillad

Mae cronfa'r Ysgol Brynrefail wedi elwa o £600 ers i'r Banc Dillad gyrraedd yma ym mis Tachwedd 2011.

Mae Caergylchu yn gynllun sy'n anelu i leihau gwastraff ac annog ailddefnyddio ac ailgylchu o fewn ardal Arfon. Mae'n bartneriaeth rhwng Cyngor Gwynedd, Cwmni Gwastraff Môn ac Arfon, ac Antur Waunfawr Ailgylchu (AWA).

Sut fedrwyd chi helpu? Wel, mae'r Nadolig ar y gorwel a bydd rhaid cael gwared â dillad er mwyn cael lle i fwy. A lle gwell i'w gwaredu na thrwy'r Banc Dillad a gwybod, nid yn unig eich bod yn helpu eraill sy'n llai breintiedig, ond hefyd Ysgol Brynrefail a chronfa'r Ysgol.

Wyddoch chi be? Casglwyd bron i dunnell o ysgolion uwchradd Arfon ym mis Medi 2012!



Pwyllgor Ysgol Werdd



Cynhaliwyd y cyfarfod agoriadol o Bwyllgor Gwyrdd Ysgol Brynrefail ar ddydd Mercher, 3 Hydref 2012. Prif nod y pwyllgor yw darparu fframwaith er mwyn cynorthwyo ein hysgol i fabwysiadu polisiau a gweithgareddau fydd yn gwarchod yr amgylchedd fel rhan ganolog o fywyd beunyddiol yr ysgol ac i

- * godi ymwybyddiaeth o'r angen i ofalu am ein hamgylchedd

- * fod yn fwy darbodus yn ein defnydd o'r amgylchedd a rhwystro llygredd yn ein hardal ni

- * cydweithio i wella ein hamgylchedd

Y mae cynrychiolwyr o bob blwyddyn ysgol ar y pwyllgor ynghyd â dau aelod o staff.



Lab Straeon Llongyfarchiadau i Beca Jones, Rhiw Goch, ar ennill y woblr gyntaf yng nghystadleuaeth dylunio medal Llyfrgell Deiniolen yn ystod y gwyliau.

Nadolig 2012 Dymunir Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl drigolion y pentref, yr ardal a phentrefi eraill dalgylch yr Eco.

Dymuna Mrs Eluned Roberts, 14 Maes Gwylfa, Nadolig Llawen a Blwyddyn newydd Dda i'w theulu, cymdogion a ffrindiau oll gan na fydd yn anfon cardiau Nadolig eleni.

Llongyfarchiadau mawr i Eleri, 13 Rhydfadog, a'r teulu i gyd ar achlysur genedigaeth bachgen bach yn diweddar, Croeso mawr i Callum Siôn.

Sul y Cofio Cafwyd gwasanaeth eto eleni o flaen y Gofeb yn yr pentref. Daeth nifer sylweddol o bobl a phlant y pentref ac o ymhellach i ffwrdd i glywed y Parchedig John Pritchard yn arwain y gwasanaeth ac aelodau o Fand Deiniolen yn cymryd rhan. Arweiniodd y Cyngorydd Elfed Williams gynrychiolaeth o holl fudiadau'r pentref i osod torch yr un ar y Gofeb er cof am fechgyn y pentref

a'r ardal a gollodd eu bywydau yn rhyfeloedd y gorffennol. Diolch i bawb a drefnodd, i'r mudiadau am osod y torchau ac i bob un a fynychodd y gwasanaeth.

Croeso Adra Balch iawn oeddem o weld Dylan Trefor Lewis yn dychwelyd adref i'w gartref yn Rhydfadog wedi cyfnod hir yn yr ysbyty yn dilyn damwain ffordd. Dymunir pob gwellhad iddo.

Eisteddfod Gadeiriol Gwaen Gynfi 2012 Cafwyd eisteddfod hynod lwyddiannus eto eleni gyda chystadlu brwd trwy'r prynhawn a'r nos. Daeth nifer o bell ac agos i gymryd rhan, gan sicrhau fod safon uchel i'r holl gystadlaethau. Hoffai'r pwyllgor ddiolch i bawb a gefnogodd yr eisteddfod, o'r cystadlaethau gwaith llaw a llenyddol ymlaen llaw ac ar ddiwrnod yr eisteddfod ei hun a hefyd i'r holl noddwyr. Cafwyd beirniaid hynod o gefnogol eto eleni gan ychwanegu at

lwyddiant yr eisteddfod.

* * *

Ar Hydref 28ain eleni cynhaliwyd Eisteddfod Gadeiriol Gwaen Gynfi yng Nghapel Ebeneser, yn cychwyn am 11 y bore tan 11 yr hwyr. Gair o ddiolch i'r pwyllgor bach, ond gweithgar, a weithiodd yn galed i gael Eisteddfod o'r safon uchaf posib. Diolchir hefyd i'r trigolion a ddaeth draw i gefnogi yn ystod y dydd. Yn olaf, diolch yn fawr i holl noddwyr yr Eisteddfod am eu haelioni parod eto eleni.

Y Cyngorydd Elfed Williams **Noson Tân Gwylt** Cafwyd sioe a hanner eto eleni yn yr Ysgol Feithringyda arddangosfa tân gwylt a lluniaeth i bobl a phlant y pentref. Diolch i bawb a gefnogodd.

Gŵyl Deiniolen a'r Cylch

Ceir goleuadau Nadolig eto eleni ar hyd stryd fawr y pentref gan roi naws Nadoligaidd i'r stryd yn ystod mis Rhagfyr. Bydd ymddangosiad gan Siôn Corn yn ogystal. Mae noson wedi ei threfnu yng Nghlwb Cymdeithasol Llanberis yng nghwmni'r band, Celt.

Pen-blwydd Hapus

Dymunir pen-blwydd hapus iawn i Mrs Margaret Cynfi Griffith, sydd yn dathlu pen-blwydd go arbennig ar ddechrau'r mis.

Lleisiau Llanbabs Yn dilyn llwyddiant y parti yn yr Ŵyl Ban Geltaidd yn Iwerddon eleni, maent wedi cael gwahoddiad i ddychwelyd y flwyddyn nesaf. Maent wrthi'n brysur yn codi arian tuag at y daith a dymunir pob llwyddiant iddynt i'r dyfodol.

Diolch Dymuna Dylan, Sioned, Alaw, Siôn ac Erin,

18 Rhydfadog, ynghyd ac Alun, Lona, Sandra a Gwyn ddiolch o waelod calon i'w teulu, ffrindiau, cymdogion a thrigolion Deiniolen, Dinorwig a'r cyffiniau am yr holl garedigrwydd y maent wedi ei dderbyn fel teulu ar ôl y ddamwain ffordd a gafodd Dylan yn ôl ym mis Mehefin. Mae'r cyfan wedi bod yn gymorth mawr i ni fel teulu yn ystod y pedwar mis y bu Dylan naill ai yn Ysbyty Royal Lerpwl neu Ysbyty Gwynedd, Bangor. Ond balch ydym o gael dweud fod Dylan wedi cael dychwelyd adref ac yn gwella yn dda iawn. All geiriau ddim cyflawni ein gwerthfawrogiad i bawb am eu haelioni a'r 'concern' mawr y mae pawb wedi ei ddangos atom. Unwaith eto, diolch o waelod calon.

Cymdeithas Undebol

Ar nos Lun, 22 Hydref, cafwyd noson ddiddorol yng nghwmni Mr Geraint Strello o'r Bontnewydd.

Gwirfoddolwr gyda Chymdeithas Cŵn Chwilio ac Achub yw Geraint a chawsom sgwrs ddifyr iawn ganddo ar sut mae'r gymdeithas yn gweithio a'r ffordd y mae'r cŵn yn cael eu hyfforddi. Ci defaid un ar ddeg oed profiadol iawn yw 'Fly' ac roedd yn gwneud ei hun yn gartrefol yn ein mysg, megis cychwyn ar ei yrfa y mae 'Wil', y labrador pedwar mis oed.

Llywyddwyd y noson gan Mr Brian Price a chroesawodd aelodau newydd atom. Diolchwyd am y cyfan gan y Cyngorydd Mr Elfed Williams.

www.a-v-w.co.uk
01286 673559
 CIBYN IND EST. CAERNARFON LL55 2BD
 SAFON UCHEL Y GALLWCH EI DRYSTIO
 ARBENIGWYR AR GEIR SWEDEN A'R ALMAEN
 CEIR, CAMPERS A FANIAU

BEICS NEWYDD ac OFFER BEICIO
 AR GYFER OEDOLION A PHLANT

Beics Trydan ar gael
FREEGO a POWABYKE
 Newydd ac Ail-law

AM BRIS CALL!

Claud Butler Dawes
(01286) 676804 neu 07770951007
BEICS MENAI 1 Cei Llechi Caernarfon
e/bost-hire@beicsmenai.co.uk



Llwyddiant ysgubol Band Ieuentid Deiniolen.

Dydd Sadwrn , Tachwedd 3ydd ym Mhencampwriaeth Bandiau Pres Gogledd Cymru yn Llandudno daeth cryn lwyddiant i Fand Ieuentid Deiniolen unwaith eto eleni.

Yn yr Adran Ieuentid cipiodd y Band Ieuentid bedair gwobr. Cawsant y wobwr gyntaf sef Tarian Goffa Irene Fox ac yn ogystal tarian goffa Eifion Rogers am yr Emyr gorau. Daeth gwobrau unigol i ddau aelod o'r band sef Cwpan Sialens Lixwm i'r Offerynwyr gorau yn yr Adran Ieuentid sef Emyr Jones sy'n chwarae'r Euphonium a Tarian Joy Soffe i'r offerynwyr Taro gorau sef Dylan Evans.

Cydymdeimlo Estynnir ein cydymdeimlad dwys at deulu'r ddiweddar Mrs Sheila Thomas, Stryd Fawr, yn dilyn ei marwolaeth ddiweddar.

Cylch Meithrin Croeso mawr i'r tri phlentyn bach a ymunodd efo ni yn y cylch ar ôl hanner tymor. Braff dweud eu bod wedi setlo i mewn yn dda gyda gweddill y plant.

Ar ôl noson Tan Gwylt lwyddiannus iawn eto y flwyddyn hon mae staff a phwyllgor y Cylch yn ddiolchgar i bawb a'u cefnogodd ac a gyfrannodd tuag at wneud y noson yn arbennig, a phawb wedi mwynhau.

Y flwyddyn yma, Jessica Williams a Hayley Hughes a ddewiswyd i osod torch ar y Gofeb ar fore braff Sul y Cofio.

Braff yw cael gweld plant bach o'r Cylch yn cael cyfle i fod yn rhan o hanes a hwnnw yn hanes pwysig iawn yn ein bywydau. Diolch i Jessica a Hayley a'r rhieni am gymryd rhan.

Yn fuan iawn rwan bydd y staff a phlant y Cylch yn brysur yn ymarfer a pharatoi ar gyfer eu Cyngerdd Nadolig ac mi fydd ymweliad gan Siôn Corn. Mae pawb yn edrych ymlaen.

Dymuna Staff a phwyllgor y Cylch Meithrin gymryd y cyfle yma i ddiolch i bawb am yr holl gefnogaeth maent wedi ei dderbyn drwy'r flwyddyn a phob dymuniad da am Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i blant bach y Cylch, i'w rhieni a phawb yn y pentref a gobeithio y bydd Siôn Corn yn dod â llawer o anrhegion neis i bawb.

Arweinydd y Band Ieuentid yw Osian Tomos ac am ei lwyddiant derbyniodd ef ffon arwain arbennig a hynny am yr ail flwyddyn yn olynol.

Roedd 28 o aelodau yn y Band Ieuentid ac felly mae'r dyfodol i Fand Deiniolen, un o fandiau hynaf ardaloedd y chwareli yn ddisglair iawn. Llongyfarchiadau calonnog iddynt am eu llwyddiant eto eleni.

Wythnos yn ddiweddarach roeddent yn ymddangos ar y rhaglen Stwnsh ar S4C a hynny'n fyw o'r cwt band. Cafwyd llawer o hwyl yng nghwmni Owain Gwynedd y cyflwynydd a mwynhawyd y profiad yn fawr. I orffen digwyddiadau'r Nadolig i'r Seindorf Ieuentid bydd eu cyngerdd blynyddol eleni yn cael ei gynnal yn Festri Capel Ebeneser ar y 10fed o Rhagfyr am 6.30 yr hwyr gyda Lleisiau Llanbabs ac Osian Trefor yn cymryd rhan. Dewch yn llw!

Gwasanaethau Ebeneser a Chefnywaun (yn Ebeneser)

Rhagfyr 2:	9.30 a 5.00 p.m. – Y Parchg John Pritchard
Rhagfyr 9:	5.00 p.m. – Y Parchg Dafydd Ll. Hughes
Rhagfyr 16:	10.00 a.m. – Oedfa Deulu
	5.00 p.m. – Y Parchg John Pritchard
Rhagfyr 23:	5.00 p.m. – Oedfa Garolau
Rhagfyr 30:	5.00 p.m. Gwasanaeth Cristingl Unedig yn Eglwys Llandinorwig

BARRYS GLASS

FFENESTRI • DRYSAU
Conservatori UPVC

Trwsio Unedau
"DOUBLE GLAZING"

Trwsio a Gosod Gwydr

(01286) 872772
Symudol- 07840 794269

H.E. HUGHES

A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys

LLANBERIS

Ffôn: 870444



★ Gwerthwr Glo
★ Olew Gwres Canolog
i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!



Problem gyda'ch cyfrifiadur?

Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys a gwella eich cyfrifiadur cysylltwch â **Gomer Roberts**
Ffôn : 01286 870462
Symudol : 07962 712368

Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur!

CHIROPODYDD

GALWADAU I'R CARTREF



RICHARD THOMAS SRCh/HPC

Cysylltwch Symudol 0797 631 6487 • Tŷ 01758 612384

ECO'r Wyddfa

Nadolig Llawen i bawb

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

En holl gwsmeriaid oddi wrth bawb ym

menter fachwern

(01286) 872014

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb yn

LONDON GARAGE
Cwm-y-glo
Ffôn: 870234

Ar agor: 9-5 Llun – Gwener
9-1 Sadwrn

MOT. Disel, Petrol
Gwasanaeth ac Atgyweirio a phapurau newydd

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

GRAHAM A JEAN A PHAWB YN Y PRINCE OF WALES LLANBERIS 870708

Cwrw Blasus Croeso Cartrefol

AM BETROL, DEISEL OLEW AC AMRYFAL ANRHEGION MODURO

GORSAF BETROL LONDON GARAGE CWM-Y-GLO

Ffôn: Llanberis 872046

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

CYNGERDD CAROLAU

2 o'r gloch DYDD SUL RHAGFYR 16

Mynydd Gwefru Llanberis

★ Seindorf Arian Deiniolen
★ Côr Meibion Dyffryn Peris
UNAWDWYR
★ Osian Trefor ★ Tomos Parry (PIANO)

MYNEDIAD AM DDIM BYDD CASGLIAD TUAG AT
Ambiwlans Awyr Cymru

Nadolig llawen gan holl staff
Amgueddfa Lechi Cymru!

Dewch i ymweld â ni y gaeaf yma!

Sion Corn a Ffair Gaeaf 25.11.2012

Arddangosfeydd

Sioe Trenau Bach 14 -17. 2. 2013

Arddangosiadau

Atyniadau

Caffi clyd

AMSEROEDD AGOR Y GAEAF 2012
10am- 4pm Dydd Sul - Dydd Gwener
(ar gau ar ddydd Sadwrn)
DROS Y NADOLIG BYDDWN AR GAU:
22,24,25,26,29 Rhagfyr a 1 Ionawr 2013

ANRHEGION A HAMPERI NADOLIG ar gael nawr

Amgueddfa Lechi Cymru
Llanberis, Gwynedd LL55 4TY
☎ 02920 573700
www.amgueddfacymru.ac.uk



ECO'r Wyddfa

Nadolig Llawen i bawb



Mae'r criw yn diolch i'n holl gwsmeriaid am eu cefnogaeth

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd!

56 STRYD FAWR LLANBERIS Ffon 872686

CELF Y COPÄON
MOUNTAIN ART
STRYD FAWR
LLANBERIS 870925

Safle Gwe:
www.mountainart.co.uk
e-bost:
ginger@mountainart.co.uk

- ★ Am luniau mynyddoedd
- ★ Peintiadau
- ★ Printiadau



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i Bawb

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

odyn copr

66 Stryd Fawr Llanberis

Ffon: 871366

Cyfarchion Nadolig Llanberis

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i chwi oll oddi wrth bawb yn siop



HAIRLINES

Stryd Fawr, Llanberis
Ffôn: 870328



CYFARCHION Y TYMOR A DYMUNIADAU GORAU



oddi wrth



Dylan Davies

MODURDY'R WYDDFA

LLANBERIS Ffôn: 870225



Ceir ar werth; M.O.T.

Gwasanaeth Torri Lawr y Dydd

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

ODDI WRTH

MORRIS BROS.

BECWS GORS BACH, CWM Y GLO
Ffôn: Llanberis 870430


HEFYD YM MECWS PEN Y BRYN
LLANBERIS Ffôn: Llanberis 870268
70 STRYD LLYN CAERNARFON Ffôn: 675526

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb yn

SIOP a FFERM FÊL YR WYDDFA

STRYD FAWR, LLANBERIS

Ffôn: **870218**



Mêl

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

GWIN a MEDD



DMM



Nadolig Llawen

a

Blwyddyn Newydd Dda

oddi wrth bawb yn

DMM

LLANBERIS



www.dmmwales.com



Cyfarchion Nadolig Ni fydd Trefor a Heulwen Edwards, 'Tŷ Eldon', Llanberis, yn anfon Cardiau Nadolig eleni. Dymunant Nadolig dedwydd a Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn y fro, gan ddiolch am bob cefnogaeth yn ystod y flwyddyn anodd iawn, ddiwethaf.

Profedigaeth Bu farw Gordon Richard Owen, 46 Maes Padarn, yn dawel yn ei gartref ar y 24ain o Hydref, yn 84 mlwydd oed. Ganwyd ef ym 1928, yn drydydd o wyth o blant i'r diweddar Richard a Mary Owen. Bu'n byw yn Llanberis ar hyd ei oes ac roedd yn aelod ffyddlon o Eglwys Sant Padarn. Roedd yn weddw i'r ddiweddar Beryl Janet Owen a fu farw 13 mlynedd yn ôl. Roedd yn ŵr bonheddig, poblogaidd ac yn gyfaill ffyddlon i lawer. Roedd yn dad a thad yng nghyfraith arbennig i Shirley a John, Linda a Nigel ac yn daid balch i Caryl ac Iwan. Roedd ei gefnogaeth a'i gynghorion doeth yn ddiguro, a'i gariad yn ddiamod. Bydd colled fawr ar ei ôl. Cafwyd gwasanaeth angladd urddasol a theimladwy iawn yn Eglwys Sant Padarn ar y 27ain o Hydref.

Diolch Dymuna teulu'r diweddar Gordon Richard Owen ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a chefnogaeth a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli tad, tad yng nghyfraith, a thaid arbennig iawn.

Diolch hefyd i'r meddygon a'r nyrsys fu'n gofalu amdano. Diolch i'r Parchedig Ddr Carol Roberts a'r Parchedig Ganon Robert Townsend am eu gwasanaeth yn yr angladd ac i Gwynfor Jones o E.W. Pritchard am ei drefniadau trylwyr.

Derbyniwyd rhoddion hael, yn ddiolchgar, tuag at Feddygfa Llanberis ac Eglwys Sant Padarn, Llanberis.

Eglwys Sant Padarn Nos Sul, Hydref yr 21ain, cynhaliwyd cyngerdd yng nghwmni Hogia'r Ddwylan, Elin Mai Jones ac Arpe Dolce (Angharad Wyn Jones a Dylan Cernyw) yn Eglwys Sant Padarn.

Trefnwyd y noson gan Iwan Wyn Williams, cadeirydd pwyllgor codi arian Eglwys Sant Padarn a chyfeilydd Hogia'r Ddwylan. Cafwyd noson fythgofiadwy a pherfformiadau o'r safon uchaf.

Mae'r pwyllgor wedi bod yn brysur drwy'r flwyddyn yn trefnu gweithgareddau er mwyn codi arian tuag at gael cegin a chyfleusterau i'r Eglwys. Yn dilyn llwyddiant y 'Cinio Cymunedol' ym mis Mehefin, bydd y pwyllgor yn cynnal 'Cinio Nadolig' yn y Ganolfan, ddydd Sul, Rhagfyr yr 2ail, croeso cynnes i bawb. Bydd tocynnau ar gael gan aelodau'r pwyllgor.

Y Gymdeithas Undebol Mr Richard Lloyd Jones, Bethel oedd y gŵr gwadd yng nghyfarfod diwethaf Y Gymdeithas ar y 13eg o Dachwedd. Soniodd am ei ymweliad â Ieper yng ngwlad Belg, y mynwentydd milwrol a'r dioddefaint i'r milwyr yn y Rhyfel Cyntaf.

Hyna'i hysgogodd iysgrifennu'r awdl a enillodd y Gadair yn Eisteddfod Y Tymbl llynedd. Llywyddwyd a diolchwyd iddo gan y Parchedig John Pritchard. Bydd y cyfarfod nesaf o'r Gymdeithas ar Ragfyr y 11eg am 7yh, yn Festri Capel Coch. Cawn Gyfarfod Nadoligaidd o dan ofal y Parchedig John Pritchard. Bydd y cyfarfod yn agored i bawb, felly dowch i ddathlu Gŵyl Y Geni. Cewch sgwrs, paned a minspei!

Ffair Nadolig Capel Coch Cynhelir y Ffair Nadolig yn Festri Capel Coch am 2yp ar y 7fed o Ragfyr. Bydd pob math o Stondinau, Danteithion a Bargeinion Lu ar eich cyfer. Dewch i ymuno hefo paned, sgwrs a minspei.

Dymuniadau Nadolig Dymuna Louie Pritchard Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i deulu, ffrindiau a chymdogion gan na fydd yn anfon Cardiau Nadolig. Diolch am yr Eco a'r gweithwyr i gyd!

Gwellhad Da gennym yw clywed fod Mrs Betsy Jones,

Bryn Eglwys, wedi dychwelyd gartref yn dilyn llawfeddygaeth ddwys yn Ysbyty Gwynedd. Dymunwn fel cyfeillion i Betsy, adferiad llwyr a buan.

Capel Coch - Ysgol Sul Cofiwch fod croeso cynnes i blant i'r Ysgol Sul a gynhelir yn Capel Coch am 11.15 o'r gloch bob bore Sul. Rydym bob amser yn falch o weld plant newydd yn dod atom, ac mae'n braf iawn cael dweud fod amryw wedi cychwyn yn ddiweddar. Ar y pedwerydd Sul bob mis byddwn yn cynnal Oedfa Deulu am 10.30 o'r gloch yn lle'r Ysgol Sul. Ffoniwch 01286 872390 am fanylion pellach am yr Ysgol Sul.

CICiau Mae CICiau (Clwb Ieuentid Cristnogol Iau) yn cael ei gynnal bob pythefnos ar nos Wener, am 7.00 o'r gloch. Am fanylion pellach ffoniwch 872390 eto. Ceir manylion llawn am drefn yr oedfaon, yr Ysgol Sul a CICiau ar ein gwefan, gronyn.org unrhyw amser.

MOLI Cynhelir oedfa MOLI (Mwy O Le i Iesu) yn Capel Coch am 5.00 o'r gloch ar yr ail nos Sul o bob mis. Bydd y nesaf am 5.00 o'r gloch nos Sul, Rhagfyr 9.

Coleg y Bala Aeth dau o blant yr Ysgol Sul i aros yng Ngholeg y Bala o nos Wener, Tachwedd 9, hyd bnawn Sul, Tachwedd 11, ar y Cwrs Ieuentid a drefnir gan y Coleg. Roedd dros 80 o bobl ifanc o bob rhan o'r Gogledd ar y cwrs. Diolch i Andrew Settatee am fynd yno efo plant y fro hon.

Nadolig Cynhelir Oedfa Nadolig y Plant nos Sul, Rhagfyr 23. Am y tro cyntaf, byddwn yn cynnal parti Nadolig yr un noson â'r oedfa, ac felly edrychwn ymlaen at y gwasanaeth a'r parti i'w ddilyn.

* GOLEUADAU'R GOEDEN NADOLIG YMLAEN
 * TAITH LAMP o'r GANOLFAN am 6 o'r gloch
 * SAMBA BAND * CANU CAROLAU
 * Sion Corn Yn Bresennol gyda chymorth y "Bwrdd Crwn"
 * STONDINAU CŴN POETH • BBQ
 * TOMBOLA • CREFFTAU

**AM FWY O WYBODAETH-
FFONIWCH "KATY"- 07956557675**

E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE, Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

THE NEWYD DDA

SWIGOD A SEBON
SYCHLANHAU
Altro • Ailwnio
GWASANAETH
Casglu a Danfon
Gwasanaeth Golchi a Smwddio

**54 STRYD FAWR LLANBERIS
(01286) 870088**



Yr adeg hon o'r flwyddyn mae'r byd chwaraeon yn dewis chwaraewyr a thimau gorau'r deuddeg mis diwethaf. A bydd digon o drafod ac anghydweld ynghylch y gwobrau a ddyfennir. Mae hynny'n rhan o hwyl chwaraeon, wrth gwrs. Beth am dimau llwyddiannus y fro hon dros y flwyddyn ddiwethaf? Tybed ai tîm pêl droed dan 11 oed Llanberis tymor 2011-12 oedd y mwyaf llwyddiannus ohonyn nhw i gyd?

Dan hyfforddiant Rodney Collins ac Adrian Roberts, mae'r hogiau hyn wedi bod gyda'i gilydd ers o leiaf bum mlynedd erbyn hyn, ers pan oedden nhw oddeutu 6 oed. Ac mae pawb sydd wedi eu gweld yn chwarae dros y blynyddoedd wedi sylwi bod gan Rodney ac Adrian dim da. Cawsant gryn lwyddiant mewn sawl twrnamaint cyn hyn. Ond yn ystod 2012 roeddent bron yn ddiguro. Timau 8 yr ochr sydd gan blant yr oedran hwn. Ac er nad oes gynghrair swyddogol i'r oedran hwn, fe drefnir gemau ar hyd y flwyddyn, ac roedd yr hogiau bron yn ddiguro trwy'r tymor. Ond yn y twrnameintiau a drefnwyd yn ystod yr haf gan y gwahanol glybiau y daeth yr hogiau i'r brig go iawn eleni gan ennill pump o'r saith twrnamaint y buon nhw'n cymryd rhan ynddyn nhw. Yn y ddau arall, cyrhaeddodd yr hogiau'r rownd gynderfynol.

Dyma'r 5 twrnamaint a enillwyd:

Twrnamaint Clwb Pêl Droed Ieuencid (CPDI) Y Felinheli

Twrnamaint CPDI Nantlle (ym Mhenygroes)

Twrnamaint CPDI Mynydd Llandygai (ym Methesda)

Twrnamaint CPDI Penrhyndeudraeth

Twrnamaint Eco'r Wyddfa yn Llanrug

Llongyfarchiadau mawr i'r hogiau ac i'w hyfforddwyr. Erbyn hyn, mae'r hogiau yn cystadlu dan 12 oed, mewn tîm llawn o 11 chwaraewr, ac wedi cael cychwyn arbennig o dda. Maen nhw wedi cyrraedd trydedd rownd Cwpan Cymdeithas Arfordir y Gogledd, a dymunir yn dda iddynt ar hyd y tymor.

Diolch yn fawr iawn i Rodney ac Adrian am eu holl waith a'u gofal am yr hogiau dros y blynyddoedd.

POSH PAWS

TACLUSO CWN
Busnes Newydd Lleol

PRYNHAWNIAU neu NOSWEITHIAU 4-10
DYDD SUL 8YB-4YP
Gwasanaeth Casglu a Danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 • 07565791010
ebost- juliaposhpaws@btinternet.com

Blodau Raccu
NEWYN SARAH JONES

Ffôn 870605

Basodau Planniglon
Planniglon Gardd
Basodau Crag
Helwr Compost ar
ICWORTH

RHODD C.H. GALON
FW BLUDAU



Royal Victoria Hotel LLANBERIS



Ffôn- 01286-870253
Mev-royalvictoria@legacy-hotels.co.uk

NADOLIG LLAWEN
a Blwyddyn Newydd Dda

ODDIWRTH BAWB YN Y GWESTY
DIOLCH AM EICH CEFNOGAETH TRWY'R FLWYDDYN



Priodasau

Dathliadau Achlysuron Arbennig
Cynadleddau Pwyllgorau
Bwydlen Bar
Cinio Dydd Sul



Rhagfyr 8fed a 9fed
MARCHNAD NADOLIG

Clwb 300 Enillwyr y Clwb am fis Hydref oedd: £30: Mrs Gweneirys Jones, Penrhyn, Lôn Ddewi, Caernarfon; £20: Mr Gareth Jones, Glyn Ceris; £10: Ms Catrin Lowri, 3 Croes y Waun.

Sefydliad y Merched Cynhaliwyd Cyfarfod Blynnyddol y Sefydliad ar 1 Tachwedd dan lywyddiaeth Catherine Jones. Cyfeiriodd fod Betty wedi dathlu ei phen-blwydd yn 90 oed yn ddiweddar gan ddymuno'n dda iddi a gobeithio y bydd yn teimlo'n well yn fuan. Mae Betty wedi bod yn aelod ffyddlon iawn o'r Sefydliad ers blynnyddoedd lawer.

Croesawodd Catherine Mrs Jean Lane, Cynghorydd o'r Ffederasiwn, i arolygu y cyfarfod. Cafwyd adroddiad blynnyddol gan Pat, yr ysgrifennydd, a'r Fantolen Ariannol gan Rose Ann, y Trysorydd, ac yna adroddiad y Llywydd. Ar ôl pleidleisio, ail-etholwyd Catherine yn Llywydd ac fe gytunodd y Swyddogion eraill i aros hefyd. Diolchodd y Llywydd i'r swyddogion am eu gwaith ac i'r holl aelodau am eu help a'u cefnogaeth yn ystod y flwyddyn. Cyfeiriodd Mrs Lane ei bod yn falch bod pawb mor awyddus i helpu mewn unrhyw ffordd y gallent a'i bod yn hapus o weld fod yr aelodau bob amser yn fodlon cefnogi popeth sydd yn cael ei drefnu gan y Ffederasiwn. Diolchodd Catherine iddi am ei geiriau caredig. Ar 6 Rhagfyr bydd yr aelodau yn cael eu Cinio Nadolig yn Bron Menai, Caernarfon.

Priodas Dydd Sadwrn, Hydref 27 priodwyd Jason Lle Parry a Lorraine. Dymuniadau gorau a phob hapusrwydd ichi eich dau. Yn Stad Dôl Erddi yma yn y Waun y maent wedi ymgartrefu.

Dathlu Pen-blwydd Dymunwn yn dda i'n pobl ifanc fu'n dathlu cyrraedd oed arbennig yn ystod y mis. Bu Meurig Llywelyn, Rhos y Celyn, yn dathlu cyrraedd ei 21 mlwydd oed. Bu Hannah Latham, Haul a Gwynt a Hannah Mair, Plas Bod Hyfryd, yn dathlu eu phen-blwyddi yn ddeunaw oed. Llongyfarchiadau ichi a'i dymuniadau gorau i'r dyfodol.

Genedigaeth Llongyfarchiadau i Mrs Doris Roberts, Dwyros, ar ddod yn hen nain eto. Ganwyd Elenid Gwen, chwaer fach i Mared Ann, merch i wyres Mrs Roberts, Gwenan a'i chymar, Jonathan. Un fach arall i wirioni gyda hi.

Llongyfarchiadau hefyd i Gemma a Connor, 17 Stad Tref Eilian, ar enedigaeth eu merch fach, Tyler.

Dymuno Gwellhad Croeso adref o'r ysbyty a phob dymuniad da am wellhad buan i Mrs Cadi Jones, Nant; Mr Rol Williams, Ardwyn ac Aled Taylor, Baladeulyn, Stad Dôl Erddi.

Bu Cian Wil, 7 Ael y Bryn, yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Alder Hey.

Wedi iddi dreulio cyfnod yn yr ysbyty yn cael profion mae Mrs Sheila Roberts wedi cael dod adref hefyd. Edrychwn ymlaen i'ch gweld yn gwella ac o gwmpas y pentref.

Cydymdeimlwn â Kevin Otten a theulu 4 Stad Pant y Waun yn eu profedigaeth o golli chwaer a modryb a oedd yn annwyl iddynt.

Cydymdeimlwn yn ddwys hefyd â Dylan a Barbara Parry a'r teulu yn eu profedigaeth o golli modryb garedig ac annwyl iawn iddynt. Roedd Miss Katie Roberts (Anti Katie) yn un o gymeriadau hynaf y Waun ac er ei bod wedi ymgartrefu yn y Felinheli yn ddiweddar bydd gweld ei cholli yma ymhlith ei ffrindiau. Roedd yn 101 mlwydd oed.

Newid Swydd Dymunwn yn dda i Miss Ceri Williams, Clyd y Coed, a benodwyd ddechrau Medi i'r swydd o brifathrawes Ysgol Llandegfan, Ynys Môn.

Diolch Dymuna Cadi, Nant, ddiolch yn fawr iawn i'w theulu, ei chymdogion a'i ffrindiau am y gefnogaeth a dderbyniodd cyn ac ar ôl ei llawdriniaeth. Diolch am y gofal arbennig yn Ward Tegid, Ysbyty Gwynedd a chan staff y syrjeri leol. Diolch am y anrhegion, y cardiau, yr ymweliad au a'r negeseuon i

ddymuno'n dda. Mae popeth yn gysur mawr.

Noson Calan Gaeaf Dydd Mercher, Hydref 31, fe gliriodd y glaw erbyn y gyda'r nos mewn pryd i'r gwrachod a'r ysbrydion ddod allan o'u cuddfan ar eu noson flynyddol. Roedd pob un ohonynt yn hapus, yn annwyl a chwrtais iawn ac yn ddiolchgar am eu 'treats'.

Syr

Chwi gofiwch i mi apelio yn yr Eco fis yn ôl yn gwahodd, yn obeithiol, y byddai rhywrai neu rywun yn barod i ailsefydlu'r Gymdeithas Lenyddol yn y Waunfawr y gaeaf hwn, gan fod cynifer o'r trigolion yn awyddus i hyn ddiwydd.

Yn anffodus, ni ddaeth neb ymlaen i roi ysgwydd dan y baich ac o'r herwydd, mae'r gymuned yn cael ei hamddifadu o gydgyfarfod mewn awyrgylch ddiwylliannol unwaith eto. Diolch i'r drefn fod atgyfodi'r Eisteddfod wedi bod yn llwyddiant.

Rol Williams

Eglwys y Waun Gwasanaethaumis Rhagfyr yn yr eglwys:

- 2: Parch Trefor Jones
- 9: Y Parch Gwenda Richards (Gweinidog)
- 16: Parch Dafydd Ll. Hughes
- 23: Gweinidog am 2 o'r gloch
- 30: Gweinidog

ECO'r Wyddfa

Cefnogwch ein hysbysebwyrr

ORIEL CWM
Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs:
(01286) 872882

Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
Ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan Artistiaid
Lleol
Richard S. Humphreys

Cist Gymunedol

Awydd £1,500
tuag at eich prosiect
chwaraeon cymunedol?

Mae'r Gist Gymunedol yn
cynnig grant o hyd at £1,500
i gefnogi cynlluniau
chwaraeon a gweithgareddau
egniol newydd neu
ychwanegol yn y gymuned.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:
Rhian Dobson
Swyddog Datblygu Chwaraeon
rhianelendobson@gwynedd.gov.uk
Rhif ffôn: 01758 704 057

www.gwynedd.gov.uk

DODREFN PERKINS
(Safle'r hen Nelson) CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- **Pob math o ddodrefn fy**
- **Cegin, stafell fyw, lloffi**
- **Prisiau cystadleuol**
- **Corpedi, Llenni a Lloriau Pren**



Parhad WAUNFAWR



EISTEDDFOD Y WAUNFAWR

Cynhaliwyd Eisteddfod hynod lwyddiannus yn Waunfawr ar ddydd Sadwrn yr 20fed o Hydref eleni. Bu cystadlu brwd ymysg y plant cynradd yn ystod y prynhawn ac roedd hi'n braf gweld y neuadd dan ei sang – gyda phobl yn gorfod sefyll yn y cefn. Diolch i bawb wnaeth hyfforddi'r plant ac a ddaeth i gefnogi ar y diwrnod a diolch arbennig i staff Ysgol Waunfawr am yr holl gefnogaeth.

Dyfarnwyd Cwpan Er Cof am Ffion Haf am y perfformiad gorau yn yr adrannau Llefaru a Cherdd yn ystod y prynhawn i Beca Haf. Cafwyd digon o hwyl a thynnu coes yn ystod Eisteddfod yr hwyr gyda Tîm y Post yn mynd â hi o drwch blewyn - ar y canlyniad olaf un! Diolch arbennig i'r ddau feirniad, sef Ceren Lloyd ac Emyr Gibson, wnaeth ymuno yn yr hwyl ar y noson, a diolch hefyd i'r beirniaid coginio, celf a llên – sef Rhiannon Roberts, Sioned Glyn, Anwen Hughes, Norman ac Olwen Williams. Braff oedd gweld Eisteddfod pentref Waunfawr yn ôl ar ei thraed gan obeithio y bydd yn mynd o nerth i nerth am flynyddoedd i ddod. Diolch i bawb ddaeth draw i gefnogi.

CANLYNIADAU'R EISTEDDFOD

Llefaru bl Derbyn: 1. Bella Jones; 2. Osian Parry; 3. Cadi Llwyd.
Cerdd bl Derbyn: 1. Martha Rhys; 2. Sioned Dafydd; 3. Cadi Llwyd ac Osian Parry.
Llefaru oed cyn ysgol (meithrin): 1. Miri Sion; 2. Mirain Llwyd; 3. Harri Llywelyn a Cadi Lois.
Canu oed cyn Ysgol (Meithrin): 1. Cadi Lois; 2. Miri Sion; 3. Brython Williams ac Erin Cook.
Llefaru bl 1 a 2: 1. Nel Gwilym; 2. Arian Mathews; 3. Efa Llwyd ac Ela Grug.
Cerdd bl 1 a 2: 1. Arian Mathews; 2. Ellie Gosset ac Elain Tomlinson; 3. Efa Llwyd.
Llefaru bl 3 a 4: 1. Mabon Roberts; 2. Beca Haf; 3. Tomos Williams.
Cerdd bl 3 a 4: 1. Beca Haf; 2. Poppy Burns; 3. Alina Wroe.
Llefaru bl 5 a 6: 1. Dylan Williams; 2. Elan Jones; 3. Nel Glyn ac Eryllt Roberts.
Cerdd bl 5 a 6: 1. Enlli Brown ac Elan Jones; 2. Dylan Williams; 3. Nel Glyn ac Eryllt Haf.
Cân Theatrïg: 1. Parti merched Ysgol Waunfawr; 2. Parti bechgyn Ysgol Waunfawr
Piano hyd at fl 4: 1. Beca Elan Parry; 2. Beca Haf; 3. Mabon Roberts.
Piano bl 5 a 6: 1. Meilir Parry; 2. Elan Jones.
Offerynnol hyd at fl 4: 1. Sion Gwyn.
Offerynnol bl 5 a 6: 1. Eryllt Môn; 2. Gwion Roberts.
Parti Dawnsio: 1. Shootinhg Stars a Sen; 2. Y Genod Du; 3. Y Merched Coch
Parti Llefaru: 1. Parti Eryllt Môn a Pharti Eryllt Haf.
Parti Canu: 1. Parti Eryllt Haf; 2. Parti Eryllt Môn.
Cwpan Er Cof am Ffion Haf (i'r cystadleuydd mwyaf addawol o'r adrannau Llefaru a Cherdd):
Beca Haf
Llên Bl 3: 1. Osian Tomlinson a Gruff Jones; 2. Chloe Mcleod a Sophie Roughley; 3. Lilly Plaister ac Emma Clack.
Llên Bl 4: 1. Efa Medi; 2. Celine Griffiths; 3. Ela Alcock a Beca Haf.
Llên Bl 5: 1. Tanwen Meadows; 2. Dylan Williams; 3. Meilir Parry a Sion Ifan.
Llên Bl 6: 1. Elan Jones ac Eryllt Môn; 2. Rhona Loxton a Nel Glyn; 3. Scarlett Human.
Celf Oed cyn Ysgol: 1. Gwenllian Roberts; 2. Daniel Howell; 3. Frazer Hurst.
Celf Meithrin: 1. Mirain Llwyd; 2. Miri Sion; 3. Twm Parry.
Celf Dosbarth Derbyn: 1. Mari Williams; 2. Deri Burns; 3. Aaron Roberts a Sioned Dafydd.
Celf Bl 1: 1. Efa Llwyd; 2. Mabon Rowlands; 3. Gruffydd Llwyd.
Celf Bl 2: 1. Ela Grug; 2. Serenna Williams; 3. Kieran Humphries a Nel Gwilym.
Celf Bl 3: 1. Sam Woodward; 2. Lucas Kynaston; 3. Sophie Roughley a Chloe Haf.
Celf Bl 4: 1. Jon Mill; 2. Efa Medi; 3. Poppy Burns.



Celf Bl 5: 1. Iwan Llwyd; 2. Dylan Williams; 3. Tanwen Meadows a Sion Ifan.

Celf Bl 6: 1. Elan Jones; 2. Enlli Brown a Kreena Worbey; 3. Eryllt Môn.

Ffotograffiaeth Bl Derbyn: 1. Cadi Lois Gosset.

Ffotograffiaeth Bl 1: 1. Mali Rhys Hickery; 2. Ellie Medi Gosset.

Ffotograffiaeth Bl 3: 1. Iago Pritchard.

Ffotograffiaeth Bl 5: 1. Iwan Llwyd.

Addurno Bisgedi

Oed Cyn Ysgol: 1. Ceiri Glyn; 2. Brython Williams; 3. Lucy Angharad.

Meithrin: 1. Twm Parry; 2. Miri Sion; 3. Mirain Llwyd.

Derbyn: 1. Bella Jones; 2. Daniel Roberts a Mari Williams

Bl 1: 1. Mali Hickey; 2. Elis Parry a Mabon Rowlands; 3. Ellie Gosset a Gruffydd Llwyd.

Bl 2: 1. Alaw Non; 2. Serenna Williams.

Bl 3: 1. Mabon Roberts; 2. Iago Pritchard.

Bl 5: 1. Iolo Morris; 2. Gwion Roberts; 3. Meilir Parry ag Iwan Llwyd.

Bl 6: 1. Eryllt Môn; 2. Elan Jones.

CANLYNIADAU NOS

Moli'r Beirniaid: 1. Tîm Croes y Waun; 2. Tîm y Post

Llefaru Unigol Uwchradd: 1. Cai Morgan; 2. Morgan Jones

Unawd Canu Uwchradd: 1. Mabon Pritchard; 2. Morgan Jones

Llefaru Agored: 1. Alma Jones; 2. Sioned Parry

Unawd Offerynnol Uwchradd: 1. Marek Ynyr; 2. Enlli Pritchard; 3. Tomos Morgan; 4. Cai Morgan

Darllen Heb ei Atalnodi: 1. Irene Roberts; 2. Huw Ynyr; 3. Iola Ynyr; 4. Sali Burns

Unawd Canu Agored: 1. Jana Jones; 2. Liz Daniels; 3. Doug Jones

Sgets neu Ymgom Uwchradd: 1. Tîm y Post; 2. Tîm Croes y Waun

Unawd Offerynnol: 1. Iola Llew; 2. Olwen Morgan; 3. Rob Jones

Llefaru i Ddysgwyr: 1. Jana Jones

Grŵp Cerddorol Uwchradd: 1. Tîm Croes y Waun

Parti Llefaru: 1. Tîm Croes y Waun a thîm y Post

Deuawd, Triawd neu Bedwarawd Agored: 1. Tîm Croes y Waun;

2. Tîm y Post

Darllen ar y cyd: 1. Merched Croes y Waun; 2. Dynion tîm y Post

Emyn – Agored: 1. Jana Jones (enillydd Cwpan Er Cof am Wmffra Jones); 2. Eurig Wyn; 3. Doug Jones; 4. Manon Williams

Sgets Agored: 1. Tîm y Post; 2. Tîm Croes y Waun

Côr: 1. Croes y Waun; 2. Post

Llinell Goll: 1. Olwen Williams; 2. Alma Jones; 3. Olwen Morgan;

4. Olwen Williams

Llên bl 7,8 a 9: 1. Tomos Morgan; 2. Huw Williams

Llên bl 10, 11 a 12: 1. Erin Ynyr; 2. Marek Rhys

Ffotograffiaeth Uwchradd: 1. Marek Rhys; 2. Enlli Pritchard; 3.

Mabon Pritchard

Ffotograffiaeth Agored: 1. Rhys Jones; 2. Tomos John; 3. Gill Brown

Coginio – Quiche: 1. Mari Rowlands; 2. Gill Brown; 3. Iene Roberts

Coginio – Cacen Sinsir: 1. Ann Elfryn; 2. Irene Roberts; 3. Gill Brown

Coginio – Lemon Curd: 1. Ann Jones; 2. Huw Ynyr; 3. Ann Elfryn

Addurno Bisgedi: 1. Tomos Parry



Ysgol Waunfawr

Carys Ofalus:Mae cynllun Carys Ofalus wedi ail ddechrau eto eleni i hybu diogelwch y ffordd gyda disgyblion blwyddyn 1.Rydym yn diolch Mrs Eurwen Davies nain Sion Ifan ,Cadi ac Efa ac i Kim Plaister mam Milly a Tom am wirfoddoli i helpu gyda'r cynllun.

Tim Pel Rwyd: Llongyfarchiadau i'r tim am ddod yn drydydd yn nhwrnament pelrwyd Ysgolion Arfon.

Steddfod Bentref Waunfawr: Cynhaliwyd Eisteddfod Waunfawr a'r Cylch ddydd Sadwrn yr 20fed o Hydref. Bu'n Eisteddfod lwyddiannus iawn - gyda dros 80 o blant yr ysgol yn cystadlu. Diolch i'r athrawon am baratoi'r tasgau cartref gyda'r plant ac am hyfforddi'r cystadleuwyr gogyfer a'r cystadlaethau cerddorol.

Nosweithiau Rhieni:Cynhaliwyd nosweithiau rhieni drwy'r wythnos yr 22ain o Hydref ymlaen .Diolch i bawb o'r rhieni a ddaeth i'r cyfarfodydd cafwyd cynrychiolaeth arbennig o dda.

Dawns i Bawb: Cafodd blwyddyn 5 a 6 sesiwn ddawns James Bond gan Gwmni Dawns i Bawb.

Ymweliad Addysgol: Bu blwyddyn 5 a 6 ar ymweliad addysgol i Blas Mawr Conwy a Thŷ Mawr yr Wybrnant. Roedd yr ymweliad yn cyd-fynd â'r thema tymhorol am y Tuduriaid. Cawsant ddiwrnod arbennig o dda a thywydd bendigedig.

Rás Eryri: Diolch i'r teuluoedd a gynorthwyodd gyda Rás Eryri ddydd Sadwrn Hydref y 27ain.Gan fod y ras yn dathlu penblwydd deg mlynedd ar hugain eleni roedd nifer o'r rhieni wedi coginio 'flapjacks' ar gyfer y rhedwyr.Diolch i bawb – roedd yn braf gweld cymaint o blant a rhieni yn helpu.

Gwers Gyfrifiaduron: Diolch i Rhys Jones tad Noa a Martha am roi sesiwn gyfrifiadurol i blant blwyddyn 5

Ailgylchu: Cofiwch bod bin ailgylchu'r Antur wedi ei leoli ger Prif Fynedfa'r ysgol ac mae croeso i unrhyw un ei ddefnyddio. Bydd yr ysgol yn derbyn arian bob tro y bydd yn llawn.

Plant Mewn Angen

Cafwyd diwrnod hwyl i gefnogi Ymgyrch Plant Mewn Angen ddydd Gwener Tachwedd y 16eg.

Penderfyniad y Cyngor Ysgol eleni oedd bod pob plentyn yn talu £1.00 yr un am wisgo fel cymeriad o ffilm a bod pawb yn gwneud cacennau i werthu ar y diwrnod.Bu'n ddiwrnod llwyddiannus iawn roedd phob un plentyn wedi gwisgo ac fe gasglwyd £200.00 tuag at yr ymgyrch.Diolch i bawb am gefnogi.

Digwyddiadau i ddod :

- Bydd y plant yn canu carolau yn noson Miri Sion Corn yn yr Antur nos Wener y 30ain o Dachwedd.
- Bydd blwyddyn 6 yn ymweld ág Ysgol Brynrefail ddydd Mercher Rhagfyr Sed – cyfarfod rhieni nos Fawrth Rhagfyr y 4ydd rhwng 4 a 6.00 y glch yr hwyr.
- Cynhelir ein Ffair Nadoli flynyddol yn yr ysgol nos Fercher Rhagfyr y 12fed.
- Cinio Nadolig y plant ddydd Iau Rhagfyr yr 13eg.
- Sioeau Nadolig Nos Fawrth a Nos Fercher Rhagfyr y 18fed a'r 19eg.
- Cyngerdd Meithrin a Sion Corn – ddydd Iau Rhagfyr yr 20fed.
- Ysgol yn cau dros y Nadolig – dydd Gwener Rhagfyr y 21ain.

MERCHED Y WAWR

Merched y Wawr Nos Iau, Medi 27, cafwyd dechrau rhagorol i raglen 2012-13 pan groesawyd Mrs Rhiannon Parry o Benygroes i gynnal noson. Golygydd cylchgrawn y mudiad Y Wawr yw Rhiannon ac un o sefydlwyr papur bro Llansannan a'r cylch Y Gadlas, ond y tro hwn dewisodd y wraig amryddawn hon siarad nid am ei gwaith ysgrifennu a golygu ond yn hytrach am ei doniau gwnio. Mewn sgwrs yn dwyn y teitl 'Hynt a Helynt y Nodwydd Ddur' fe'n tywysodd drwy ei hanes o'r adeg y cydiodd am y tro cyntaf mewn nodwydd fel therapi yn ystod cyfnod o salwch difrifol. Roedd wedi dod â sawl enghraifft hardd o'i gwaith gyda hi i ddangos a buom yn rhyfeddu

nid yn unig at ei medr hi a'i dawn artistig ond hefyd at ei hysbryd, ei dewrder a'i synnwyr digrifwch heintus yn wyneb salwch creulon. Ddiwedd Hydref cawsom noson arbennig o dda yng nghwmni Glenda Molloy o Ambiwylans Awyr Cymru. Anodd credu bod yr elusen rhagorol hon bellach yn un ar ddeg oed ac erbyn hyn yn gweithredu saith diwrnod yr wythnos o dri safle yng Nghymru ac yn ymateb i dros ddwy fil o alwadau brys bob blwyddyn. Yn ogystal â sgwrs hynod ddiddorol gan Glenda cawsom weld fideo am waith yr elusen a chyfle ar y diwedd i brynu nwyddau a gynhyrchir eu budd y gwaith. Noson gwerth chweil a chyfle i gefnogi'r elusen holl bwysig

hon.

Rydym yn edrych ymlaen at ein Swper Nadolig yng Nghlwb Golff Caernarfon nos Iau, Rhagfyr 6.

Cynhelir ein cyfarfod nesaf nos Iau, 31 Ionawr am 7.30 yn y Ganolfan, Waunfawr, pan fyddwn yn croesawu'r cerddor a'r canwr adnabyddus Arfon Gwilym i'n diddanu gyda chaneuon plygain a sgwrs am y traddodiad Cymreig unigryw hwn. Mae'r noson hon yn agored i'r cyhoedd ac rydym yn estyn croeso cynnes i bawb.

Gwasanaeth Diolchgarwch Fore Sul, Hydref 28, cynhaliwyd Gwasanaeth i ddiolch am y cynhaeaf yn Eglwys y Waun. Cymerwyd rhan gan ddisgyblion y Clwb Sul.Llongyfarchiadau a diolch iddynt am ddysgu eu gwaith. Yn ystod y gwasanaeth, gyda'r Barchedig Gwenda Richards yn gweinyddu, bedyddiwyd Mari Rhun a Brython Rhun, merch a mab Llion a Siân, Nant y Celyn. Mrs Gwenda Griffith oedd yr organyddes.

Taith

Rhwng sgrî a brwyn Gorffwysfa mae'n faban gwantan yma, o Bont y Gromlach, newid tant i'r Nant – a Pont y Bala.

Llyn Padarn sy'n ei lleibio, ei ddyfroedd hen sy'n stocio holl bysgod gêm y partha' hyn hyd bont Pen'llyn cyn llifo

am Gwm y Glo a'r Stabla', y feinir dry yn swta drwy'r Marddwr dyfn i'r Rhythallt wyllt â'n ffrochwyllt am Bont Crawia!

Drwy'r pyllau samon enwog rhwng cerrig mawr a mawnog i Lyn G'larafon – sionc ei throed i'w hoed â'r gwniada fflachiog...

Pont'rug ac am Glan Gwna mae'n ddynas newydd yma, mynd ag urddas – byth ar ras am flas y môr a'i donna'...

O Ben y Pas i G'narfon tri enw fu i'r afon, Seiont, Rhythallt a lle mae'r Saint mewn henaint yn yr eigion!
Norman Closs

Trwsio ac Adnewyddu Dodrefn

Wedi torri darn o ddodrefn?
Hoff gelfi wedi mynd i edrych yn drist?

Cysylltwch â ni i roi bywyd newydd i'ch trysor

Dennis & Julie Jones

01286 650255



ECO'r Wyddfa

O'r Cynghorau Cyngor Llanddeiniolen

Crynodeb o gofnodion y 6ed o Dachwedd
Capel Libanus, Clwt y Bont Derbyniwyd ateb Gwynedd ynglŷn â gosod llinellau melyn ar y ffordd - gall deiliaid bathodyn parcio adael eu ceir ar y llinellau melyn a chaniateir i eraill adael eu ceir ym maes parcio'r Swyddfa Bost - danfonwyd copi ohono i ysgrifenyddes y Capel.
Ysbyty Eryri, Caernarfon Ateb y Bwrdd Iechyd ynglŷn â chau'r uned Pelydr X - os y derbynnir y cynnig, gall y cleifion ddefnyddio uned ysbyty Gwynedd. Ni fydd angen i ddefnyddwyr fynd i ysbyty Cefni.
Cennin Pedr. Dywedodd y Clerc bod Menter Fachwen yn trefnu plannu'r bylbiau.
Rhoddion i fudiadau'r gymuned
Penderfynwyd cyfrannu at y canlynol ar ôl derbyn eu mantolen ariannol:
£300 Pwyllgor Neuadd Penisa'rwaun, £200 Lleisiau Llanbabo, £150 Ti a Fi Bethel.
£150 Ti a Fi Rhiwlas heb fantolen gan eu bod yn sefydlu am y tro cyntaf.
Clwb Pêl Droed Bethel. Gwnaed sylw o gyfraniad y Clwb i ddau chwaraewr, eglurodd Sion Jones mai arian at yswiriant oedd hynny. Gan nad yw'n arferol i'r Cyngor gyfrannu at Glwb Pêl Droed Oedolion cynigiodd Gwilym Williams ohirio'r penderfyniad am eleni a gwneud mwy o ymholiadau erbyn y flwyddyn nesaf. Cynigiodd Sion Jones, fel gwelliant, bod y Cyngor yn cyfrannu.

ECO'r Wyddfa

O'r Cynghorau Cyngor Cymuned Llanrug

Mewn cyfarfod o'r cyngor ar y 16eg o Hydref penderfynwyd:

- * Cefnogi'r opsiynau a awgrymir gan Gyngor Gwynedd i wella Ffordd Crawia a Lôn Hermon yn dilyn adolygiadau yn ddiweddar. Er nad oedd tystiolaeth o or-yrro yn yr ardaloedd yma, roedd angen gwell arwyddion a gobeithir cael gwelliannau eraill yn y dyfodol pe byddai cyllid ar gael.
- * Gwrthwynebu'r cais i addasu ac ymestyn adeilad yn uned gwyliau - The Cottage, Pant Afon, Llanrug, gan y byddai'r cais yn newid defnydd y safle ac yn amharu yn negyddol ar y trigolion lleol.
- * D'edd dim gwrthwynebiad i'r ceisiadau canlynol:
 - Cais i adeiladu 4 tŷ a modurdai ar safle Tir Pencae, Ffordd Llanberis, Llanrug.
 - Cais i adeiladu estyniad deulawr yn y cefn - Llys Dorfil, Ffordd yr Orsaf, Llanrug.
 - Cais i ddymchwel y modurdy/gweithdy presennol a chodi tŷ deulawr - The Poplars, Llanrug.
 - Cais i adeiladu estyniad lolfa haul - Hendy, Ceunant, Llanrug.
 - Tan y Buarth, Llanrug.
 - Dymchwel estyniad a chodi un newydd - Terfyn, Ceunant.
 - Gosod paneli solar - Ysgol Brynrefail Llanrug.
- * Trosglwyddo'r gŵyn fod eiddew yn tyfu i'r ffordd o flaen Tyddyn Elan ymlaen i'r Adran Priffyrdd.
- * Dosbarthu pamffledi ynglŷn â phroblemau baw cŵn i Bost Llanrug a Menter Fachwen, Cwm y Glo. Adroddwyd fod y ddau barc chwarae yn Llanrug wedi cael eu cynnwys yn sgôp gorchymyn gwahardd cŵn arfaethedig Cyngor Gwynedd.

Derbyniwyd y cynnig gwreiddiol trwy bleidlais. Felly ni wneir cyfraniad eleni a cheisir mwy o wybodaeth erbyn y flwyddyn nesaf.

Seindorf Arian Deiniolen Hysbyswyd y Cyngor bod y Brif Seindorf wedi cael canmoliaeth uchel gan y beirniaid mewn cystadleuaeth yn Venue Cymru, Llandudno a bod y Seindorf Ieuentid wedi clirio'r bwrdd:

1af am y darn gosod, 1af am chwarae Emyr Dôn, yr Arweinydd gorau, yr unawdydd gorau a'r drwmwr gorau yn y gystadleuaeth. Penderfynwyd anafod gair i'w llongyfarch.

Gohebiaethau a materion eraill

Nant y Garth Dywedodd Sion Jones ei fod yn brwydro yn erbyn bwriad Gwynedd i ddileu'r gwaith o wella wyneb y ffordd o'r Felin Heli i gyfeiriad Rhiwlas.

Gwifrau trydan o Wylfa B i Orsaf Pentir Cyfeiriodd Sion Jones at y gwahanol opsiynau a baratowyd gan y Grid Cenedlaethol ar gyfer llwybr y gwifrau a'r math o gludiant gan bwysleisio ar wrthwynebiad i wifrau uwchben pa bynnag llwybr a ddewisir. Penderfynwyd cefnogi hyn er mwyn arbed gwifrau uwchben a pheilonau - llythyr i'r Grid Cenedlaethol ac i Wynedd.

Carthffosiaeth Cyfeiriodd Carolyn Roberts at y bwriad i ehangu'r orsaf bresennol ger Trem Eilian i weithio yn lle'r gwaith carthffosiaeth sy'n gollwng yn Llanberis. Dywedodd bod sŵn o'r orsaf bresennol, ar ôl ei hail-wneud, yn amharu ar y trigolion. Hefyd bod llifogydd yn Afon Seiont yn amharu ar effeithiolrwydd y gwaith carthffosiaeth. Os caniateir hyn, faint yn fwy fydd yr orsaf, a faint mwy o sŵn gynhyrchir? Gweler adroddiad Hefin Williams o gyfarfod Fforwm Padarn.

Gofynnodd Philip Jones pam bod angen pwmpio carthffosiaeth i'r gymuned yma yn hytrach na gwella'r orsaf yn Llanberis. - llythyr i'r Bwrdd Dŵr.

Gwaelod allt Llanddeiniolen Cyfeiriodd Richard Ll Jones at y bridle path sy'n mynd i fyny i'r chwith o waelod yr allt a'i fod mewn cyflwr drwg - llythyr i Wynedd i ofyn pa Adran sy'n gyfrifol am ei gynnal ac a yw yn dramwy cyhoeddus?

Baw Cŵn Dywedodd Phyllis Ellis bod angen arwyddion mawr "Dim cŵn" ger yr ysgol a'r cae chwarae, Penisa'rwaun. Ychwanegodd Gwilym Williams bod eu hangen hefyd yn Parc Padarn.

Cynllunio Yn ystod y ms darganfu Sion Jones bod cynnig gan Wynedd, "galw am safleoedd," i rywun sydd a darn o dir i'w ddatblygu, gyflwyno cais cynllunio ond bod y dyddiad cau ar 31ain o Hydref. Gofynnwyd i'r Adran Cynllunio ymestyn y dyddiad tan ar ôl y cyfarfod yma. Cyflwynwyd ateb Gwynedd:

"Ni allwn ymestyn y dyddiad. Ar ôl inni ymgynghori ar y ddogfen strategaeth drafft, efallai y byddwn angen cynnal cyfnod newydd o alw am safleoedd. Byddwn yn siŵr o gysylltu efo'r Cyngorau Cymuned/Tref yr adeg hynny".

Cais a dderbyniwyd:

Brodirion, Bethel - estyniad dau lawr i'r cefn ac addasiadau.

Llwybrau, Rhiwlas Y llwybr at y ffynnon ger Gwynfryn, Carreg y Gath - Dywedodd Hefin Williams ei fod yn deall nad oes llwybr cyhoeddus rhestredig yma ond dylai fod mynedfa ddiramgwydd i'r cyhoedd at y ffynnon - mae moch gan y ffermwr yno yn rhwystro mynediad ers cryn amser. - llythyr i Wynedd.

Llwybr 45 i lawr o Gapel Sardis, Dinorwig - mewn cyflwr peryglus - llythyr i Wynedd

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 4ydd o Ragfyr.

Cynrychion Goed
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG

Ffôn: (01286) 674183
(0589) 899901

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTION • PRIDASAU
PEN-BWYB
BEDYB • DAWNS • GWYTLAU


RHOSTIO MOCHYN
AR GYFER
POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol
* Partion rhwng 40 a 180!
* Gyda saws afal a stwffin mewn
rhofiau
* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!
Cysylltwch â:
**JOHN BRYNAFON
LLANRUG**

Y.DYN CIG: 675190 / 673188
Ffôn symudol: 07798 718188
Gwefan: www.ydyneig.co.uk





Ar ben arall i'r lein

O'r diwedd fe gafwyd penderfyniad Dŵr Cymru ar beth a fwriedir ei wneud i ddatrys problem Llyn Padarn, daeth hyn i'r amlwg yn ystod cyfarfod o Fforwm Padarn yng Ngwesty Fictoria, Llanberis ar 19 Hydref.

Adroddwyd y bydd holl garthffos Llanberis yn cael ei bibellu i gyrion Brynrefail, ble bydd gwaith trin carthion mawr modern yn cael ei adeiladu. Dydi'r union safle ddim yn glir eto. Bydd yr arllwysiadau o'r gwaith yma i fyny â phob safon. Bydd y bibell yn rhedeg ar hyd hen wely'r rheilffordd ar ochr y llyn. Yn ogystal bydd gwaith yn cario 'mlaen ym mhentref Llanberis i dynnu dŵr wyneb o'r sustem garthffos, felly dim ond carthion fydd yn mynd i'r gwaith newydd a dŵr glan yn unig fydd yn cael ei arllwys i Padarn.

Mae gwaith yn digwydd ar y foment i addasu'r gwaith carthion presennol i fod yn fwy modern ac i drin gwastraff yn well. Pan fod hyn wedi cymryd dros ugain mlynedd tybed? Ond rhaid peidio crafu dros bethau ac edrychwn ymlaen am welliant mawr yn y sefyllfa bresennol

Wrth gwrs, cyn dechrau gosod pibellau ac adeiladu'r gwaith newydd bydd eisiau disgwyl i weld y dyluniadau. A fydd rhain yn dderbyniol i Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Cyngor Cefn Gwlad? Bydd rhaid gwneud cais cynllunio a disgwyl yr holl adroddiadau y bydd yn rhaid eu hystyried gyda chais mewn ardal mor sensitif. Mwyaf tebyg bydd gwrthwynebiadau chwynn gan drigolion Brynrefail, gan, i fod yn deg maent yn cael digon o drafferth gyda'r gwaith cymharol fychan sydd yno yn barod, mi fydd y cynigion yma yn llawer mwy.

Amcangyfrif amserlen y cynllun yw rhwng 36 - 39 mis o ddechrau'r gwaith dylunio i orffen y gwaith adeiladu. Golyga hyn felly y bydd carthion a ffosffadau yn dal i lifo i Padarn am o leiaf dair blynedd arall, ond, yn fy marn i, sydd wedi bod yn un o'r ychydig rai sydd wedi bod ynghlwm â'r broblem yma er dros 20 mlynedd, ac yn ymwybodol o sut mae'r awdurdodau dros y blynyddoedd wedi gwadu fod problem yn bod, ni fyddaf yn cael siom o gwbwl wrth weld y gwaith yn rhedeg am tua pum mlynedd. Ond byddaf wrth fy modd os caf fy mhrofi'n anghywir.

Gyda goleuni ar y gorwel o'r diwedd, mae pawb i'w gweld wedi deffro ac eisiau bod yn rhan o be sy'n mynd ymlaen. Mae Dŵr Cymru, hyd yn oed, wedi rhoi swm sylweddol o arian i gwmni lleol i redeg prosiect 'Caru ein Llyn', ac mae taflenni gwybodaeth a samplau o hylif golchi di-ffosffad ar gael o amgylch y lle. Ble mae peth fel hyn wedi bod ers 20 mlynedd tybed? Er fod yr arian yma yn hedfan o gwmpas, yn ôl pob golwg does dim ar gael i'r rhai sydd wedi cael colledion difrifol o achos y llygredd. Na chwaith ar y foment does dim camau pellgyrhaeddol yn cael eu cymryd i wella ein pysgodfeydd. Rydym, fel cymdeithas, yn derbyn cyngor ar y ffordd ymlaen gyda hyn.



Mae yn wir dweud o leiaf fod peth gwaith wedi ei wneud i gasglu grawn y torgoch oherwydd y perygl y byddant yn marw allan o'r llyn. Mae torgochiad bach wedi ei gollwng ers dwy flynedd i Lyn Cowlyd ond eleni mi ryddhawyd tua 700 o rai bychain i Padarn. Rhy ychydig rhy hwyr yw barn y clwb. Fodd bynnag bydd y rhwydi yn cael ei gosod unwaith eto yn ystod Rhagfyr i geisio cael mwy o rawn i gario'r cynllun magu ymlaen. Yn ogystal rydym yn disgwyl manylion ar greu mangre claddu newydd yn rhan o Afon y Bala, eto dyma waith sydd wedi ei esgeuluso ers diwedd y 1970's pan roddwyd tunelli o rô yn yr afon newydd pan drowyd afon Hwch o Lyn Peris. Pwy sy'n cofio sut oedd yr afon yn rhedeg cyn y cynllun hydro tybed?

Sut mae'r pysgota eleni, wel reit ddifrifol a dweud y gwir. Mae daliadau o frithyll wedi bod yn sobor, rhyw 40 o sewin a, hyd at heddiw, 38 o eogiaid, ond mae 20 o rhain wedi eu dal yn dilyn Hydref 17, sef diwrnod olaf y tymor ble caiff rhywun gadw un at ei swper. Nid wyf wedi clywed am yr un torgoch wedi ei fachu.

Canlyniad hyn i gyd yw fod nifer yr aelodau wedi disgyn, ni wnaeth yr haf gwlyb ddaioni i werthiant tocynnau dyddiol, gan fod nifer yr ymwelwyr i'r ardal i lawr yn sylweddol. Drwy hyn mae ein incwm i lawr ac nid yw'r newyddion y bydd o leiaf bedair blynedd bron cyn i waith i wella Padarn ddechrau yn helpu chwaith. Rhaid ystyried arwyddocad hyn gan fod cylch eog a sewin yn cymryd 4-5 mlynedd. Felly, o bosib, bydd yn agos i wyth mlynedd cyn gweld gwelliant.

‘Rydym wrthi yn cysylltu â’r perchenogion ble ‘rydym yn prydlesu neu rentu ‘sgota i drafod y dyfodol, gan ar ddiwedd y dydd y ni fel cymdeithas sydd wedi cwffio i warchod buddiannau pawb sydd â diddordeb yn y llyn a’r afon. Cewch wybod sut mae pethau yn mynd at ddechrau’r flwyddyn newydd.

Er gwaethaf popeth 'rydym fel pysgotwyr yn bositif iawn am y dyfodol, yn enwedig gan ein bod wedi cael gwahoddiad i ymuno ac Ymddiriedolaeth Afonydd Clwyd a Conwy, cewch fwy o wybodaeth am hyn yn adroddiad Dr Robin Parry a fydd yn yr Eco wythnos y Nadolig.

Felly hoffwn ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn newydd Dda i chwi oll.

Huw Price Hughes.



GLANHAWR SIMDDE

Glanhau Simdde Tân Agored
ac hefyd
Stôf goed a "Multi Fuel"
Aga/Rayburn- Olew/Nwy
Gosod Cawl • Weirio rhag Jac-do

Cysylltwch â Tom Jones
(01286) 881305

WEDI PRYNU BUSNES Y DIWEDDAR MR. GWYNFRYN LLOYD

YSWIRIANT FUW

Hoffech chi hybu:



Bwyd lleol
Busnesau cefn gwlad
Economi wledig

Trwy gefnogi Yswiriant FUW?
Yswiriant car, ty neu unrhyw fusnes

Dafydd F Jones 01492 642663 Dwyfryn Sir Gaernarfon

Buddsoddi yn eich cymuned

Yn eiddoedd a sefydlwyd yn 1998, mae FUW yn parhau'n ddynodwr o'r economi leol a'r economi wledig. Yn eiddoedd a sefydlwyd yn 1998, mae FUW yn parhau'n ddynodwr o'r economi leol a'r economi wledig.

Chwaraeon

HYDREF LLWM

Ysgrifennaf y golofn a chwmwl du tîm rygbi Seland Newydd yn cyrraedd Caerdydd. Os bu angen gwyrth ar ein tîm cenedlaethol, daeth yr awr. Pencampwyr hemisffer y gogledd wedi eu chwalu ar eu tomen eu hunain gan yr Ariannin a Samoa yn barod. Dim ond un cais mewn dwy gêm. Dim her gorfforol gan y Cochion. Maint North a Cuthbert yn cael ei ddiddymu. Dim fflach o gyfeiriad yr hanneri. Ie, colofnau mawl ddod yn troi'n bapur sgloodion heddiw fu'r hanes. Pawb yn cael y bai – hyfforddwy, chwaraewyr, y dull rhanbarthol, diffyg arian, chwaraewyr yn mudo... Y farn gyffredinol yw fod Cymru yn meddu, yn y criw presennol, ar y garfan mwyaf dawnus ers cryn amser. Eto colli pum gêm ryngwladol yn olynol. Daw y lleng fel arfer ond am ba hyd. A chyda pris tocyn yn £60 a mwy, pris petrol yn ddrud, cost lletya yn codi bob penwythnos ryngwladol, yna yn fuan iawn bydd Caerdydd yn ymddangos yn bell, a'r set deledu yn hynod o gyfleus o agos! Yna, fel Cymry da, fe sefydlwn bwyllgor i edrych i mewn i'r sefyllfa. Ac eto ... Cymru! Cymru!

YDY DYDDIAU'R C & D YN DIRWYN I BEN

Nid y Caernarfon and Denbigh ond Cynghrair Caernarfon a'r Cylch. Dyma'r gynghrair y magwyd y mwyafrif ohonom yn ei swm. Mor salw yw'r sefyllfa erbyn hyn. Cynghrair o 7 tîm gyda ail dîm Llanrug ar y brig. Sefydlu cystadleuaeth cwpan ychwanegol i geisio llenwi Sadyrnau'r tymor. Ail dimau Pwllheli a Nefyn sy'n chwarae tair lefel yn uwch gyda chyfanswm o 4 pwynt rhyngddynt wedi 14 o gemau. A ninnau i fod i ymddiried yn y dull pyramid, mae'r sylfaen yn amlwg yn gwegian. Os collir dau dîm drwy ddyrchafiad i Gynghrair Gwynedd ar ddiwedd y tymor pwy ddaw yn eu lle. A fydd ddau dîm isaf Cynghrair Gwynedd yn fodlon disgyn?

A ydym wedi cyrraedd y sefyllfa erbyn hyn ble mae gormod o dimau a dim digon o chwaraewyr. A yw Cynghrair y Sul erbyn hyn yn fwy o atyniad i chwaraewyr y lefel yma? Faint o chwaraewyr timau -16 ein pentrefi sy'n mynd ymlaen i chwarae i dimau hŷn y pentrefi HYNFY.

Trist yw sylwi'r fath sefyllfa. Mae cyfansoddiad pob cynghrair ym mhob camp yn sôn mai ei phrif symbyliaeth yw meithrin a datblygu sgiliau'r gêm. Braf nodi fel mae timau fel Llanberis, Llanrug, Waunfawr, Bethel a Bontnewydd wedi camu ymlaen – rhai'n fwy nag eraill. Ond yn sicr o ran cyfleusterau. Teg gofyn felly beth fydd rôl yr hen gynghrair annwyl yn y tymhorau nesaf. Os mai ond i roi gêm i'r hogia ar ddydd Sadwrn, yna llwm yw'r gorwel yn ymddangos. Mewn cyfnod ariannol llwm anoddach yw denu noddwyr, ac yn sicr denu rhai yn fodlon rhoi eu hamser i gynnal pwyllgorau clybiau. A ddaw ail alw am sefydlu Cynghrair Gwynedd Adran 1, 2...?

CEIR CYMRU

BETHEL (0148) 670 451

(Hefyd yng Ngherrig-y-Drudion)

A ydych yn ystyried newid eich car o fewn y flwyddyn nesaf? Ystyriwch y ffeithiau hyn.

1. Mae tri-chwarter y ceir newydd a gaiff eu gwerthu ym Mhrydain yn colli rhwng 25% i 30% o'u gwerth erbyn eu bod yn naw mis oed
2. Mae cwmnïau mawr a chwmnïau lesio a llogi yn derbyn oddeutu 25% o ddiscownt wrth brynu eu ceir ac felly mae'r cerbydau hyn yn dod ar y farchnad am brisiau isel ac fel arfer mewn cyflwr rhagorol wedi cael eu cynnal a'u cadw heb ystyried costau
3. Mae gennym brofiad o 40 mlynedd yn prynu a gwerthu ceir ail-law ac rydym ar gyfartaledd yn trafaelio mil o filltiroedd bob wythnos yn chwilio am y bargeinion gorau er mwyn eu cynnig i bobl Gwynedd ar elw sydd fel arfer o qwmpas 5% o'r pris

Y FREUDDWYD YN DAL YN FYW

Ymlaen y brasgama Llanrug a Llanberis yn nwy brif gystadleuaeth pêl-droed Cymru. Os daw llwyddiant yna bydd nifer yn cyfeirio at y teithiau i'r Canolbarth a wynebai'r ddau dîm.

Wedi trechu Llanrhaeadr ym Mochnant o gynghrair uwch yng Nghwpan Cymru mae Llanrug wedi derbyn gêm gartref yn y rownd nesaf. Yr ymwelwyr fydd West End o ardal Abertawe. Mae nhw yn chwarae mewn cynghrair sy'n cymharu ac un safon uwch na Llanrug. Ni fydd ddim i'w ofni gan dîm Aled Owen felly ar Eithin Duon. Hefyd gyda'r drefn heddiw o ddileu gemau ail chwarae bydd pob sbardun i Lanrug lwyddo. Mynd amdani, a'r dorf tu cefn iddynt. Hefyd mae symiau sylweddol o arian ar gael i enillwyr pob rownd yng Nghwpan Cymru. Mae hefyd y gobaith o ddenu un o dimau prif gynghrair Cymru yn y rownd nesaf. Bangor gartref fuasai'r gêm ddelfrydol. Rhagfyr 8ed yw'r dyddiad pwysig ar Eithin Duon. Anrheg Nadolig cynnar gobeithio.

Mae Llanberis drwodd i'r 16 olaf yn Nhlws yr F.A.W. Rhaid oedd cynnal amser ychwanegol cyn curo tîm Llanfair Utd. sy'n geffylau blaen ail adran y Canolbarth. 3-2 i'r hogia a dwy gôl Dylan Parry yn allweddol. Bydd cryn edrych ymlaen i'r enwau ddod allan o'r het ar gyfer y rownd olaf ble bydd timau'r gogledd gyda'u gilydd. Cael gêm gartref fydd yn bwysig. Mae Treffynnon, Dinbych a Glan Conwy o'r un adran â Llanber yn dal yn yr het. Hefyd Brymbo a drechodd Llanrug yn y gwpan yma. Ac wrth gwrs 'galacticos' y Cofis! Byddai timau Llanberis dros y tymhorau yn mentro draw i'r Oval ar gyfer llu o rowndiau terfynol a dychwelyd yn fuddugol fel arfer i Ddyffryn Peris. Tybed a ddaw ffawd â'r gorffennol yn ôl. Cawn weld.

Rhaid nodi hefyd perfformiadau da'r ddau dîm mewn gemau cynghrair. Pwy tybed fydd yn clochdar ar ddiwedd y tymor?

SAMARIAID

Mae

Llinell Gymraeg

0300 123 3011

ar gael bob nos
rhwng
7.00pm ac 11.00pm

**Awydd £1,500
tuag at eich prosiect
chwaraeon cymunedol?**

Mae'r Gist Gymunedol yn cynnig grant o hyd at £1,500 i gefnogi cynlluniau chwaraeon a gweithgareddau egniol newydd neu ychwanegol yn y gymuned.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â: Rhian Dobson
Swyddog Datblygu Chwaraeon
rhianeleridobson@gwynedd.gov.uk
Rhif ffôn: 01758 704 057
www.gwynedd.gov.uk





dylunio graffeg/graphic design
darlunio/illustration
animeiddio/animation
graffeg arddangos/display graphics



- Cardiau Busnes
- Arwyddion
- Graffeg ar Gerbydau
- Gwefanau a mwy...

Llanrug **07766956673** gwyndaf@grid76.co.uk
gwasanaeth dwyieithog llawn/fully bilingual service

Chwaraeon

Rhedeg Rhagfyr.

Llwyddiant eto i redwyr lleol...

Yng Nghonwy roedd Alun Vaughan (Llanberis) bron i dri munud ar y blaen i'w gyd-aelod o Glwb Eryri, gan arwain yr holl ffordd o amgylch Y Gogarth a chwblhau'r hanner marathon mewn amser o 70 munud a 31 eiliad. Roedd dros fil a hanner yn cystadlu, a dim ond yr ail dro oedd hon i Alun gystadlu ar y pellter hwn – a'i ail fuddugoliaeth hefyd, yn dilyn llwyddiant tebyg yn Blackpool bedair blynedd yn ôl. Roedd ei fuddugoliaeth hefyd yn golygu mai ef yw pencampwr hanner marathon gogledd Cymru am eleni. Mae ei amser cyflym yn golygu ei fod yn cael ei dderbyn i gystadlu ym Marathon Llundain fis Ebrill nesaf.

Yn Leeds ar yr un diwrnod roedd Rob Samuel (Llanrug) a Mathew Roberts (Llanberis) yn cynrychioli Cymru mewn ras 10 cilomedr. Gyda dros saith mil o redwyr yn cystadlu, roedd safleoedd y ddau yn arbennig o dda, gyda Rob yn 22ain mewn amser o 30 munud a 55 eiliad, a Mathew yn 33ain mewn amser o 31 munud a 29 eiliad, gan dorri ei record bersonol.


Daeth y tymor rhedeg mynydd i ben gyda Ras Penmaenmawr ddiwedd y mis, ond mae'r gynghrair traws gwlad yn parhau, a'r drydedd rownd wedi ei chynnal yn Wrecsam fel roedd yr "Eco" yn mynd i'w argraffu. Y canlyniadau yn rhifyn y Nadolig.

Ar ddydd Sul, 16eg o Ragfyr bydd Clwb Rhedwyr Eryri yn cynnal eu Ras Hwyl Nadolig o amgylch Llyn Padarn. Bydd cofrestru a'r cychwyn yng Ngwesty Fictoria, gyda lluniaeth ysgafn i bawb ar ddiwedd y ras. Does dim rhaid bod yn aelod o'r Clwb i gymryd rhan. Bydd croeso i bawb a chynhelir cystadleuaeth rasio mewn gwisg ffansi a dyfalu amser Sion Corn.



Tîm Pêl-droed Llewod Llanrug

Dan 11A



Yr hogia yn gwisgo'r dillad newydd a gafwyd gan ein noddwr, Y Dyn Cig, J.H. Jones, Llanrug.